



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER



**Heddlu • Police**  
**DYFED-POWYS**

*Diogelwch ein Cymuned - Safeguarding our Community*

# Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

*Datganiad o Gyfrifon 2016/17  
(Cyfrifon y Grŵp)*

## Cynnwys

Adroddiad Naratif .....	4
Datganiad o Gyfrifoldebau .....	12
Datganiad Llywodraethu Blynyddol .....	13
Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys.....	22
Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2016/17 .....	24
Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2015/16 .....	25
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2016/17.....	26
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2015/16 (Wedi'i ailddatgan) .....	27
Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn .....	28
Y Fantolen .....	30
Datganiad Llif Arian Parod.....	31
Cronfa Bensiwn yr Heddlu.....	32
1. <i>Polisiau cyfrifyddu</i> .....	33
2. <i>Addasiadau Cyfnod Blaenorol</i> .....	40
3. <i>Safonau cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto</i> .....	41
4. <i>Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu</i> .....	42
5. <i>Rhagdybiaethau a wnaed ynglŷn â ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif yn y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif</i> .....	43
6. <i>Eitemau perthnasol o incwm a gwariant</i> .....	44
7. <i>Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen</i> .....	44
8. <i>Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid</i> .....	45
9. <i>Incwm Segementaidd</i> .....	47
10. <i>Gwariant ac Incwm a Ddadansoddwyd yn ôl Natur</i> .....	48
11. <i>Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau</i> .....	48
12. <i>Trosoglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</i> .....	50
13. <i>Gwariant gweithredu arall</i> .....	50
14. <i>Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi</i> .....	51
15. <i>Trethiant ac incwm grant amhenodol</i> .....	51
16. <i>Eiddo, offer a chyfarpar</i> .....	52
17. <i>Eiddo buddsoddi</i> .....	55
18. <i>Ymrwymadau Cyfalaf</i> .....	56
19. <i>Asedau anniriaethol</i> .....	57
20. <i>Dyledwyr Hirdymor</i> .....	57
21. <i>Offerynnau Ariannol</i> .....	57
22. <i>Rhestrau eiddo</i> .....	61
23. <i>Dyledwyr Byrdymor</i> .....	62
24. <i>Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod</i> .....	62
25. <i>Asedau a ddelir i'w gwerthu</i> .....	62
26. <i>Credydwyr Byrdymor</i> .....	62
27. <i>Darpariaethau</i> .....	63
28. <i>Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio</i> .....	64
29. <i>Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio</i> .....	66
30. <i>Datganiad llif arian parod – gweithgareddau gweithredu</i> .....	70

---

31.	<i>Datganiad llif arian parod – gweithgareddau buddsoddi</i> .....	70
32.	<i>Datganiad llif arian parod – gweithgareddau – gweithgareddau ariannu</i> .....	71
33.	<i>Gwasanaethau Asiantaeth</i> .....	71
34.	<i>Trefniadau Cydweithredol</i> .....	71
35.	<i>Cydnabyddiaeth swyddogion</i> .....	74
36.	<i>Costau archwilio allanol</i> .....	79
37.	<i>Incwm Grant</i> .....	79
38.	<i>Partïon cysylltiedig</i> .....	80
39.	<i>Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf</i> .....	81
40.	<i>Prydlesau</i> .....	82
41.	<i>Mentrau Cyllid Preifat a chontractau tebyg</i> .....	83
42.	<i>Colledion lleihad mewn gwerth</i> .....	83
43.	<i>Buddiannau terfynu</i> .....	83
44.	<i>Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig</i> .....	83
45.	<i>Rhwymedigaethau Digwyddiadol</i> .....	88
46.	<i>Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol</i> .....	89
47.	<i>Cronfeydd Ymddiriedolaeth</i> .....	92
	<i>Rhestr Termau</i> .....	93

## Adroddiad Naratif

### Cyflwyniad

Diben yr Adroddiad Naratif hwn yw cynnig canllaw effeithiol i bartïon â diddordeb ar y materion mwyaf arwyddocaol a nodir yn y cyfrifon ynghyd ag esboniad o effaith bosibl yr hinsawdd economaidd bresennol ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys.

Ar 15 Tachwedd 2012 etholodd y cyhoedd Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau dros Ddyfed-Powys am y tro cyntaf, a dechreuodd yr ymgeisydd llwyddiannus, Mr Christopher Salmon, yn ei swydd ar 22 Tachwedd 2012, pan ddiddymwyd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys. Prif rôl y Comisiynydd yw sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol ledled Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys a dwyn Prif Gwnstabl Dyfed-Powys i gyfrif am gyflawni dyletswyddau gweithredol yr Heddlu o dan Ddeddf yr Heddlu 1996.

Yn ystod 2016/17 daeth cyfnod cyntaf Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn eu swydd i ben ac ar 5 Mai 2016 etholwyd Mr Dafydd Llywelyn fel Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys. Bydd Mr Llywelyn yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon sy'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol 2016/17 yn ei chyfanrwydd er na ddechreuodd yn ei swydd tan ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol 2016/17.

### Datganiad o Gyfrifon

Dyma'r bumed set o gyfrifon statudol a baratowyd o dan y trefniadau llywodraethu newydd. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân (corfforaethau undyn) baratoi eu Datganiadau o Gyfrifon eu hunain, gyda'r Comisiynydd yn gyfrifol hefyd am baratoi Cyfrifon y Grŵp (sy'n cynnwys cyfrifon y Comisiynydd). Mae'r canlynol yn esbonio'r datganiadau sy'n dilyn, eu diben a'r gydberthynas rhyngddynt:

- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon** – mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'i Brif Swyddog Cyllid;
- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** - nid yw'r datganiad hwn yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon ond fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio sut mae'r Grŵp yn cynnal ei fusnes yn unol â safonau priodol ac mae'n cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol;
- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** – mae hwn yn nodi barn yr archwilydd allanol, sef Swyddfa Archwilio Cymru, ynghylch p'un a yw cyfrifon y Grŵp yn rhoi 'darlun gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Comisiynydd ar gyfer 2016/17;
- **Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu** – mae hwn yn ddatganiad newydd ac mae'n dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu gan y Grŵp o adnoddau fel y'u nodir gan reolwyr, wedi'u rhannu yn ôl cyfarwyddiaeth/gwasanaeth ac adran o'u cymharu â'r adnoddau hynny sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan y Grŵp a nodir yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol;
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** – mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddau yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys treuliau o ddydd i

ddydd ac incwm cysylltiedig ar sail croniadau, yn ogystal â thrafodion yn mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd a gwerth amcangyfrifedig gwirioneddol buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn;

- **Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** - mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Grŵp, wedi'u dadansoddi'n "gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio" (arian y gellir ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ac sy'n bodoli drwy gymhwyso safonau cyfrifyddu, er enghraifft, y gronfa bensiwn wrth gefn sy'n cyfateb i'r rhwymedigaeth pensiwn);
- **Mantolen** – mae hwn yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Grŵp fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r asedau net (asedau llai rhwymedigaeth) yn cael eu cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ac na ellir eu defnyddio;
- **Datganiad Llif Arian Parod** – mae'r datganiad hwn yn crynhoi newidiadau i arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd;
- **Cronfa Bensiwn yr Heddlu** - mae hon yn crynhoi'r incwm a'r gwariant sy'n ymwneud â phensiynau'r heddlu yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r cyfrif yn dangos y grant ychwanegol sy'n ddyledus o'r Grŵp i Gyfrif y Gronfa Bensiwn. Wedyn mae'r Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r Grŵp am arian a dalwyd i Gyfrif y Gronfa Bensiwn ac yn tanysgrifennu'r diffyg ar Gyfrif y Gronfa Bensiwn. Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai gan Gyfrif y Gronfa Bensiwn warged ar ddiwedd y flwyddyn;
- **Nodiadau i'r Cyfrifon** - mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n esbonio'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y prif ddatganiadau ariannol ymhellach gyda'r nod o wella dealltwriaeth y darlennydd o'r prif ddatganiadau ariannol;
- **Rhestr Termiau** - nid yw hon yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon ond mae wedi'i chynnwys er mwyn helpu'r darlennydd i ddeall y Datganiad o Gyfrifon.

### **Perfformiad Ariannol y Grŵp**

Ym mis Ionawr 2016, pennodd Mr Christopher Salmon gyllideb refeniw o £93.341m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17. Ar ôl cael Grant o £37.117m gan y Swyddfa Gartref, Ardrethi Annomestig Cenedlaethol o £8.277m a Grant Cynnal Refeniw o £4.617m, codwyd £43.330m o'r Dreth Gyngor.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon y Grŵp yn dangos perfformiad ariannol y Grŵp ar sail cyfrifyddu priodol ac mae'n bodloni gofyniad Cod Ymarfer y Sefydliad Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Fodd bynnag, ceir crynodeb isod o'r elfennau pwysicaf o incwm a gwariant yn y cyfrifon sy'n cael eu monitro o ddydd i ddydd (nid yw'r tabl yn cynnwys elfennau megis rhwymedigaethau pensiwn, nad oes angen iddynt gael eu hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn o dan statud).

Mae'r tabl yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2016/17 o'i chymharu â chyllideb ddiwygiedig y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Yn gyffredinol llwyddodd y Grŵp i fantoli'r gyllideb.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

	Cyllideb Wreiddiol	Cyllideb Ddiwygiedig	Gwirioneddol	Amrywiant yn erbyn y Gyllideb Ddiwygiedig  (Negyddol o ran Arbediad)
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gwariant y Comisiynydd</b>				
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu	979	979	853	-126
Comisiynu	978	888	850	-38
<b>Cyfanswm y Gyllideb - Y Comisiynydd</b>	<b>1,957</b>	<b>1,867</b>	<b>1,703</b>	<b>-164</b>
<b>Gwarian y Prif Gwnstabl</b>				
Swyddfa'r Prif Gwnstabl	2,291	2,214	2,014	-200
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	7,579	7,623	8,127	504
Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Chydymffurfiaeth	1,753	1,753	1,757	4
Cyfarwyddiaeth Gyllid	5,941	5,917	5,752	-165
Cymdogaethau	48,036	47,935	47,542	-393
Ymchwiliadau	21,836	22,391	22,887	496
Cymorth Gwyddonol	1,763	1,808	1,491	-317
Cyfiawnder Troseiddol	1,416	1,182	1,111	-71
Safonau Proffesiynol	959	968	1,021	53
Cymdeithasau Staff	184	187	189	2
Cyllideb ac Incwm Canolog	2,678	2,568	2,092	-476
<b>Cyfanswm y Gyllideb - yr Heddlu</b>	<b>94,436</b>	<b>94,546</b>	<b>93,983</b>	<b>-563</b>
<b>Gweithgareddau eraill</b>				
Mentrau a ariannwyd o Gronfeydd Wrth Gefn	0	0	190	190
Incwm Ailhyfforddi Gyrwyr	0	0	-292	-292
Gweithgareddau Ystadau a Ariannwyd o Gronfeydd Wrth Gefn	0	0	343	343
<b>Cyfanswm - Arall</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>241</b>	<b>241</b>
<b>Cyfraniad net i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn</b>	<b>-3,052</b>	<b>-3,072</b>	<b>-2,586</b>	<b>486</b>
<b>Cyfanswm y Grwp (gan gynnwys cronfa wrth gefn)</b>	<b>93,341</b>	<b>93,341</b>	<b>93,341</b>	<b>0</b>
<b>Ariannwyd drwy Grantiau a Phraeseptau</b>	<b>-93,341</b>	<b>-93,341</b>	<b>-93,341</b>	<b>0</b>

Rhoddir esboniadau o'r prif amrywiannau isod:

### Y Comisiynydd

- Gwariodd y Comisiynydd £126k yn llai na'r gyllideb ar gyfer ei swyddfa. Cafodd y gyllideb ei phennu'n wreiddiol gan Mr Christopher Salmon a'i hetifeddu gan Mr Dafydd Llywelyn. Mae'r amrywiant yn deillio o'r oedi cyn recriwtio strwythur swyddfa newydd Mr Llywelyn ochr yn ochr â newid mewn blaenoriaethau ynglŷn â gwariant nad yw'n wariant swyddfa.
- Roedd cost gwasanaethau a gomisiynwyd yn gyson â'r gyllideb gydag amrywiant bach o £38k (3.9%) yn y costau gwirioneddol yn erbyn y costau a gyllidebwyd.

### Y Prif Gwnstabl

- Swyddfa'r Prif Gwnstabl: Cafwyd tanwariant o £200K yn erbyn y gyllideb, yn bennaf drwy arbedion a sicrhawyd yn erbyn cyllideb ymddeol oherwydd salwch swyddogion yr heddlu Heddlu Dyfed-Powys.
- Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau: Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn ymgorffori'r Adrannau Ystadau, Uned Cymorth Busnes, Gwasanaethau Pobl a Gwelliant Parhaus. Fel cyfanswm, gorwariodd y Gyfarwyddiaeth £504k yn erbyn y gyllideb wreiddiol. Profodd yr Heddlu rai pwysau cost sylweddol o ganlyniad i weithredu'r Cyflog Byw mewn perthynas â Chontractau Glanhau (£100K) a rhai taliadau ar gyfer ardrethi hanesyddol ar adeiladau cydweithredol (£165K) Hefyd, penderfynodd yr Heddlu gyflogi neu benodi staff ychwanegol ar sail dros dro (£355K) i'r Gyfarwyddiaeth er mwyn ymdopi â phwysau prosiectau a phrosesu ôl-groniadau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Cafwyd incwm ychwanegol o £116K o dan benawdau Ystadau a Chymorth Busnes.
- Y Gyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Chydymffurfio: Aeth yr Heddlu i rai costau ychwanegol ar gyfer swyddogion a staff dros dro yn erbyn y gyllideb wreiddiol a bennwyd ar gyfer y Gyfarwyddiaeth hon (£228k) er mwyn bodloni rhai gofynion prosesu enbyd ond cafodd hyn ei wrthbwysu gan incwm ychwanegol a gostyngiadau mewn treuliau cyfreithiol allanol yr aethpwyd iddynt yn ystod y flwyddyn.
- Y Gyfarwyddiaeth Gyllid: Mae'r Gyfarwyddiaeth hon yn cwmpasu Adrannau Cyllid Corfforaethol, Fflyd, TGCh a Chaffael yr Heddlu. Cytunwyd ar gostau staffio ychwanegol o £228k yn ystod y flwyddyn er mwyn bwrw ymlaen â gwaith prosiect TGCh a wrthbwyswyd gan arbedion sylweddol yn erbyn tanwydd, meysydd eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau ac incwm ychwanegol mewn perthynas â gwerthu cerbydau.
- Cymdogaethau Plismona: Mae'r pennawd hwn yn cwmpasu'r holl wariant yr aed iddo ar blismona lleol yn ogystal â swyddogaethau Cymorth Gweithredol Arbenigol, y Ganolfan Gyfathrebu a Rheoli Troseddwyr. Roedd cyllidebau cyflogau swyddogion £57K yn is na'r lefel a ragwelwyd yn y gyllideb ond cafwyd gorwariant o £239K mewn goramser oherwydd nifer o heriau gweithredol sylweddol. Cafwyd rhai arbedion sylweddol yn erbyn rolau staff yr heddlu, costau tanwydd ac incwm sydd wedi cyfrannu at danwariant net yn erbyn y pennawd hwn.
- Ymchwiliadau: Buddsoddodd yr Heddlu mewn adnoddau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ym maes seiberdrosedd ac Unedau Ymchwiliadol a oedd yn gweithio i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a ariannwyd o arbedion cylchol a wnaed gan yr Heddlu drwy ei raglen "Gwario'n Ddoeth". Hefyd, aeth yr Heddlu i



gostau goramser ychwanegol yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i brinder staff, ymgyrchoedd mawr a thaliadau mewn perthynas â gweithio ar ddyletswydd hanesyddol yn unol â Rheoliadau'r Heddlu. Aeth yr Heddlu i gostau ychwanegol hefyd mewn perthynas â rhoi cymorth meddygol yn ei Ddalfeydd.

- Yr Adran Cymorth Gwyddonol: Cafwyd y tanwariant sylweddol yn erbyn y pennawd hwn yn erbyn cyllidebau fforensig a chyllidebau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau oherwydd arbedion caffael cydweithredol a lefelau is na'r disgwyl o ran ceisiadau.
- Yr Adran Cyfiawnder Troseddol: Cafwyd tanwariant anghylchol o £71k yn erbyn y gyllideb yn bennaf yn erbyn penawdau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau ac incwm.
- Yr Adran Safonau Proffesiynol: Cafwyd gorwariant anghylchol o £53k yn erbyn y gyllideb yn erbyn penawdau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a TGCh a ariannwyd o arbedion a wnaed mewn manau eraill yn yr Heddlu.
- Cymdeithasau Staff: Cafwyd y gorwariant bach mewn perthynas â phenawdau cost eiddo.
- Cyllideb Ganolog ac Incwm: Cafwyd tanwariant o £476K yn erbyn y pennawd hwn ar gyfer gwariant ac incwm a reolir yn ganolog. Gellid priodoli hyn yn bennaf i incwm ychwanegol o ddyletswyddau hebrwng mewn perthynas â ffermydd gwynt. Cafodd arbedion yn ystod y flwyddyn yn erbyn cyllidebau staffio eu cofnodi hefyd yn erbyn y penawdau hyn a oedd yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan daliadau ychwanegol cyfatebol yn erbyn prosiectau cydweithredol ar gyfer y flwyddyn.

### Gweithgareddau Eraill

- Mae mentrau a ariannwyd o'r Cronfeydd Wrth Gefn yn cynnwys Cronfa'r Comisiynydd (£81k) a Chynllun Grant Ffordd at Ddiogelwch (£76k), sef symiau o arian a gynigwyd i sefydliadau lleol i'w gwario ar brosiectau sy'n cefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd. Dyrannwyd arian drwy broses gwneud cais. Ariannwyd y £190k cyfan o'r cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys rhai cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd megis y rhai a gynhyrchir drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau ac o incwm a gynhyrchwyd o gyrsiau ailhyfforddi gyrrwyr.
- Mae'r Prif Gwnstabl yn gweinyddu'r cyrsiau ailhyfforddi gyrrwyr ar ran y Comisiynydd. Roedd yr incwm a gynhyrchwyd yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd ac unwaith bod costau gweinyddu'r Prif Gwnstabl wedi'u hystyried, trosglwyddwyd balans o £292k i'r cronfeydd wrth gefn.
- Yn 2016/17, cynhaliodd y Comisiynydd y rhaglen gyfalaf ystadau. Tybiwyd bod £343k o gostau gwirioneddol y rhaglen hon yn rhai refeniw (yn hytrach na rhai cyfalaf) eu natur felly fe'u cofnodir yma er cyflawnder er iddynt gael eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn yn ôl y bwriad gwreiddiol.

Rhoddir rhagor o fanylion am weithrediadau'r Prif Gwnstabl yn Natganiad o Gyfrifon 2016/17 y Prif Gwnstabl.

### **Cronfeydd Wrth Gefn**

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/17, gostyngodd cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio £5.561m o £32.9m i £27.3m. Y ddau ddefnydd mwyaf o'r cronfeydd wrth gefn oedd:

- Cymorth Refeniw – roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys trosglwyddo £3.052m o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Trosglwyddwyd y swm hwn o ganlyniad i benderfyniad Mr Christopher Salmon i dorri'r praesept yn 2015/16 a defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu elfen o'r cyllidebau refeniw rhwng 2015/16 a 2018/19. Oherwydd tanwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn, y swm a drosglwyddwyd o'r cronfeydd wrth gefn mewn gwirionedd yn 2016/17 oedd £2.502m.
- Rhaglen Gyfalaf – O ganlyniad i'r rhaglen gyfalaf wedi'i chynllunio, defnyddiwyd £3.500m o'r Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn (yn erbyn rhagamcan y câi £5.321m ei ddefnyddio).

Mae ffigurau terfynol y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn, sef £27.3m, wedi'u rhannu'n swm o £16.1m i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf yn y dyfodol, cronfeydd gyffredinol wrth gefn o £4.5m ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a £6.7m i gynnal y gyllideb refeniw yn 2017/18 a 2018/19.

### Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Yn ychwanegol at wariant refeniw, caiff arian ei wario ar asedau cyfalaf megis adeiladau a cherbydau sydd â gwerth hirdymor i'r Comisiynydd.

Bob blwyddyn, mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo rhaglen gyfalaf sy'n nodi lle y bydd yn mynd i wariant cyfalaf. Yn 2016/17 mabwysiadwyd cyllideb gyfalaf o £7.857m gan y Comisiynydd.

Yn ystod 2016/17 gwariwyd cyfanswm o £4.218m mewn gwariant cyfalaf gwirioneddol. Dangosir y prif amrywiadau oddi wrth y gyllideb isod:

Gwariant Cyfalaf	Cyllideb £'000	Gwirioneddol £'000	(Gor) / Tan £'000	Rheswm dros orwariant/tanwariant £'000
Tir ac Adeiladau	2,700	1,316	1,384	Oherwydd oedi cyn nodi a phrynu tir ar gyfer prosiect dalfa Sir Gaerfyrddin ni chafwyd braidd ddim gwariant ar y prosiect hwnnw yn ystod y flwyddyn. Mae rhaglen I adnewyddu'r gorsafoedd presennol yn mynd rhagddi gyda rhywfaint o oedi.
Cerbydau	1,264	1,411	-147	Arweiniodd oedi cyn prynu cerbydau yn ystod y flwyddyn flaenorol (oherwydd llithriant) at y gorwariant hwn yn 2016/17.
TG a phrosiectau strategol eraill	3,893	1,491	2,402	Bu oedi wrth gyflawni nifer of brosiectau, gan gynnwys prosiect uwchraddio IP999 (£438k), prosiect WAN (£238k) a phrosiect fideos mewn ceir (£250k).
<b>Cyfanswm</b>	<b>7,857</b>	<b>4,218</b>	<b>3,639</b>	

Ariannwyd y gwariant cyfalaf hwn fel a ganlyn:

Ariannu Cyfalaf	Cyllideb	Gwirioneddol	(Gor) / Tan	Rheswm dros orwariant/tanwariant
	£'000	£'000	£'000	
Derbyniadau Cyfalaf	1,500	37	1,463	Rhagwelwyd y byddai'r asedau dros ben yn cael eu gwerthu yn ystod y flwyddyn ond oherwydd oedi, gan gynnwys oedi mewn perthynas â chofrestru adeiladau â'r Gofrestrfa Tir ni werthwyd asedau yn ôl y disgwyl. Derbyniwyd ychydig o incwm o werthu cerbydau.
Cyllid Refeniw Uniongyrchol	422	415	7	Roedd y canlyniad gwirioneddol yn agos iawn at y sefyllfa a gyllidebwyd.
Credydd Cyfalaf NPAS	114	114	0	
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn	5,321	3,109	2,212	Oherwydd oedi mewn rhaglenni cyfalaf, nid oedd angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i'r graddau a ragwelwyd pan bennwyd y gyllideb.
Grant Cyfalaf a Chyfraniadau	500	543	-43	Derbyniwyd rhai grantiau ychwanegol nad oeddent wedi'u cynnwys yn y gyllideb wreiddiol.
<b>Cyfanswm</b>	<b>7,857</b>	<b>4,218</b>	<b>3,639</b>	

### Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn rhoi cipolwg ar asedau a rhwymedigaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar ddyddiad y fantolen (31 Mawrth 2017).

Y swm mwyaf ar Fantolen y Grŵp yw'r rhwymedigaeth hirdymor o £1,313m mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol i swyddogion a staff yr heddlu. Dyna'r swm y byddai angen i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau ei neilltuo ar ddyddiad y fantolen ar gyfer taliadau pensiynau'r holl swyddogion a staff presennol ac ymdeoledig yn y dyfodol.

Cyfrifwyd y ffigur hwn yn annibynnol ar sail actiwaraid ac mae'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys lefelau cyflog, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau ac ati yn y dyfodol. Mae'r rhwymedigaeth gyffredinol wedi cynyddu £303m yn ystod y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i newid yn y dybiaeth cyfradd ddisgowntio a gymhwyswyd. Mae'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar yr arenillion cyfartalog o fondiau corfforaethol. Yn 2016/17 y dybiaeth cyfradd ddisgowntio a gymhwyswyd oedd 2.6% o gymharu â thybiaeth cyfradd ddisgowntio o 3.6% ar gyfer 2015/16. Mae newid o'r fath yn y dybiaeth unigol hon yn cyfrif am gynnydd o £296m yn y rhwymedigaethau cyffredinol ar gyfer cronfeydd pensiwn yr heddlu a'r staff gyda £261m o'r cynnydd yn ymwneud â Chynllun Pensiwn yr Heddlu. Caiff holl gostau pensiwn presennol swyddogion yr heddlu (ond nid y staff ) a'r costau yn y dyfodol eu talu gan y Llywodraeth.

Yr eitem fwyaf nesaf ar y Fantolen yw'r £73.709m o eiddo, offer a chyfapar sy'n eiddo i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Yn ogystal â'r asedau hirdymor hyn, daliodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau £22.6m o asedau byrdymor – buddsoddiadau cyfnod sefydlog yn bennaf – ar 31 Mawrth 2017.

### Edrych Ymlaen

Roedd y setliad grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 ychydig yn well na'r disgwyl, gyda gostyngiad o 0.6% yn nhermau arian parod yn y grant craidd. Fodd bynnag, erys pryderon o hyd ynglŷn ag effaith bosibl yr adolygiad o'r fformiwla ariannu. Dechreuodd ymgynghoriad ar fformiwla newydd yn ystod 2015/16 ond fe'i hataliwyd dros dro ar ôl i wallau gael eu darganfod yn fformiwla'r Swyddfa Gartref. Dechreuodd adolygiad newydd o'r fformiwla yn 2016/17 ac rydym bellach yn aros am ganlyniad yr adolygiad hwnnw.

Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a gaiff fformiwla newydd ei chyflwyno na beth fydd y terfynau amser. Gallai newid yn y fformiwla gael effaith sylweddol ar lefel y cyllid y mae'r Comisiynydd yn ei gael ar hyn o bryd.

Bu sefydlogrwydd o ran pwysau cyflogau a chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r rhagolygon presennol yn dangos cynnydd mewn chwyddiant ac mae'r cynnydd hwn a ragwelir, ynghyd ag effaith Brexit sy'n anhysbys i raddau helaeth hyd yma, yn her i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu wrth ystyried y cynllun ariannol tymor canolig.

Lansiodd Mr Dafydd Llywelyn ei Gynllun Heddlu a Throseddu newydd ar ddiwedd 2016/17. Yn ei gynllun mae'n nodi ei bedair blaenoriaeth allweddol:

- Cadw cymunedau'n Ddiogel;
- Diogelu'r rhai agored i niwed;
- Amddiffyn ein cymunedau;
- Cysylltu gyda chymunedau.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi datblygu Cynllun Cyflawni i gefnogi Cynllun a chynlluniau'r Comisiynydd yn y broses o fuddsoddi yn y gweithgareddau hynny sy'n helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiynydd. O ystyried y pwysau ariannol a drafodir uchod, bydd yn rhaid parhau i nodi cyfleoedd i weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon drwy'r busnes cyfan er mwyn canolbwyntio cyllid ar y blaenoriaethau craidd hyn.

Hefyd, bydd angen buddsoddi symiau sylweddol o arian yn yr ystâd ac mewn technoleg dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r cynllun presennol yn dangos rhaglen fuddsoddi o tua £30m dros y pedair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae ariannu'r rhaglen hon yn her. Dim ond tua £300k y flwyddyn yw'r grant cyfalaf a roddir gan y Swyddfa Gartref a, hyd yn oed ar ôl ystyried derbyniadau disgwylidig o werthu asedau nad oes eu hangen mwyach, ceir diffyg arian cyfalaf o tua £10m o fewn yr adnoddau presennol rhwng 2017/18 a 2020/2021.

## Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

### Cyfrifoldebau'r Comisiynydd

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny, sef y Prif Swyddog Cyllid;
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Cymeradwyaf y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17.

---

## Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau      Dyddiad

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth;
- cydymffurfio â'r Cod i Awdurdodau lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Grŵp/Comisiynydd ar y dyddiad adrodd ac o'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn wedi cael ei baratoi i nodi i ba raddau y mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cydymffurfio â'i god llywodraethu ac esbonio sut mae hyn yn gyson ag egwyddorion llywodraethu da yng nghanllawiau newydd *Delivering Good Governance: Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales 2016 Edition* y Sefydliad Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys disgrifiad o ba mor effeithiol fu'r trefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn ac yn esbonio unrhyw newidiadau arfaethedig yn y cyfnod sydd i ddod.

Mae'r canllawiau newydd yn cydnabod saith egwyddor graidd:

- Egwyddor Graidd A – ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith;
- Egwyddor Graidd B – sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysfawr;
- Egwyddor Graidd C – pennu canlyniadau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;
- Egwyddor Graidd D – penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau arfaethedig;
- Egwyddor Graidd E – datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion ynddo;
- Egwyddor Graidd F – rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a threfniadau rheoli ariannol cyhoeddus cadarn;
- Egwyddor Graidd G – gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei strwythuro gan ddefnyddio pob un o'r penawdau a awgrymir yn y Canllawiau newydd. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion rheoliad 5(4) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

## Cyfrifoldebau

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn Gorfforaethau Undyn ac mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yn nodi'r trefniadau llywodraethu plismona, yn egluro rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Phanel yr Heddlu a Throseddu a sut y dylent gydweithio i fynd i'r afael â throseddu a gwella plismona.

### *Y Comisiynydd*

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodwyd yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac mae'n rhaid iddo ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer ei swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau ar waith i reoli risg.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2016/17, Christopher Salmon oedd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (y Comisiynydd). Fodd bynnag, ar 12 Mai 2016 dechreuodd Dafydd Llywelyn yn ei swydd fel y Comisiynydd newydd. Felly, oni nodir fel arall, mae pob cyfeiriad at y Comisiynydd yn cyfeirio at gyfnod Dafydd Llywelyn yn y swydd.

Cyn dechrau yn y swydd tyngodd y Comisiynydd Iw i gynrychioli holl bobl Dyfed-Powys yn ddiuedd, heb ofn na ffafriaeth ac wrth wneud ei benderfyniadau, mae'n cadarnhau nad oes ganddo unrhyw fuddiant personol na rhagfarnus yn y mater. Mae'r ddau Gomisiynydd a Dirprwy Gomisiynydd Christopher Salmon (nid oes gan Dafydd Llywelyn ddirprwy) wedi cytuno i gadw at God Ymddygiad sy'n rhoi canllawiau ar safonau ac ymddygiad moesegol.

Yn ystod 2013/2014 lluniwyd Cod Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd. Fe'i mabwysiadwyd ar 1 Ebrill 2014 ac mae wedi'i gynnwys o fewn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Cafodd ei ddiweddarau i adlewyrchu anghenion y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl newydd a chaiff ei hadolygu bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu ei gyfeiriad strategol a'i flaenoriaethau ac ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd y Comisiynydd Gynllun Heddlu a Throseddau pum mlynedd (y Cynllun). Caiff y Cynllun ei ddiweddarau bob blwyddyn ac mae'n amlinellu'r weledigaeth, yr amcanion heddlu a throseddau a'r cyfeiriad strategol ar gyfer plismona. Mae'r Cynllun yn nodi pedair blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gymunedau a'r rhai sy'n agored i niwed. Lansiodd y Cynllun drwy gyfres o ddiwyddiadau er mwyn sicrhau bod gweledigaeth y Comisiynydd yn cael ei chyfleu'n glir i'r Heddlu, partneriaid a'r cyhoedd.

Mae copïau o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'r Cynllun ar gael ar wefan y Comisiynydd neu gellir eu cael gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys ym Mluch SP 99, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF.

### *Y Prif Gwnstabl*

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2016/17, Simon Prince QPM oedd y Prif Gwnstabl ac ar 19 Rhagfyr 2016, dechreuodd Mark Collins yn ei swydd fel y Prif Gwnstabl newydd. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynnal Heddwch y Frenhines, ac mae'n cyfarwyddo ac yn rheoli swyddogion a staff yr Heddlu. Mae'n dal ei swydd o dan y Goron, ac mae'n atebol i'r gyfraith am arfer pwerau'r heddlu, ac i'r Comisiynydd am ddarparu gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol a rheoli adnoddau a gwariant yr Heddlu. Ar bob adeg, mae'r Prif Gwnstabl yn parhau i fod yn weithredol annibynnol.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn diffinio natur eu perthynas, gan roi manylion eu priod gyfrifoldebau a'r ymddygiad a ddisgwyllir ganddynt. Mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

### *Panel yr Heddlu a Throseddau*

Mae Panel yr Heddlu a Throseddau yn craffu ar waith y Comisiynydd drwy'r amser ac yn cefnogi ei waith. Mae'r Panel yn cynnwys deuddeg Cynghorydd Sir a dau Aelod Annibynnol. Mae'r Panel yn cynnal ei waith drwy gyfarfodydd cyhoeddus a gofnodir ac mae'r agenda a'r cofnodion ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Comisiynydd. Y panel sy'n adolygu cwynion yn erbyn y Comisiynydd. Mae rhagor o wybodaeth am Banel yr Heddlu a Throseddau, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar gael ar-lein.

### *Cyd-bwyllgor Archwilio*

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar aelod ar hyn o bryd ac mae'n bodoli i roi sicrwydd annibynnol bod rheolaethau digonol ar waith i liniaru risgiau allweddol a rhoi sicrwydd bod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithredu'n effeithiol. Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod 2016/2017 ac mae eu barn wedi'i llywio gan ganlyniadau gweithgarwch craffu Archwilio Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru,

Arolygiaeth Cwnstablïaeth ei Mawrhydi (ACEM) ac adolygiadau neu archwiliadau ad-hoc eraill. Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gael ar wefan y Comisiynydd.

### *Archwilio Mewnol*

Rôl yr archwilwyr mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol bod prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol sefydliad yn gweithredu'n effeithiol. Mae eu hadolygiadau yn cwmpasu gweithrediadau sy'n dod o dan gyfrifoldebau'r ddwy Gorfforaeth Undyn. Mae'r archwilwyr mewnol yn mabwysiadu dull o bennu'r anghenion archwilio bob blwyddyn sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn cynnwys adolygu ein cofrestrau risg a'n fframwaith rheoli risg ynghyd ag adolygu gwaith archwilio mewnol blaenorol, argymhellion archwilio allanol a dogfennaeth gorfforaethol allweddol. Mae hyn yn eu galluogi i gynnig cynllun tair blynedd. Y Cyd-bwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol bob blwyddyn.

### *Swyddfa Archwilio Cymru*

Wrth gynnal ei hadolygiad o'r datganiadau ariannol mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn gwneud sylwadau ar y system o reolaethau mewnol sydd ar waith. Cadarnhaodd hefyd fod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Unwaith eto, crynhoir canlyniad ei gwaith isod o dan Adolygiad o Effeithiolrwydd.

### *Grŵp Llywodraethu Corfforaethol*

Mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo ar y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol am ymgymryd â'r broses o gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu. Mae'r aelodaeth bresennol yn cynnwys Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio, y Dirprwy Brif Gwnstabl, Swyddog Monitro'r Comisiynydd a'r ddau Brif Swyddog Cyllid dros y Comisiynydd, y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth.

Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol wedi datblygu matrices sy'n crynhoi'r strwythurau/adnoddau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y ddwy Gorfforaeth Undyn er mwyn dangos sut y caiff gofynion pob un o'r saith egwyddor allweddol eu bodloni. Y matrices hwn yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn. Mae'r matrices hefyd yn crynhoi'r camau gweithredol pellach rydym yn dymuno eu cymryd i atgyfnerthu'r fframwaith llywodraethu ymhellach. Y camau gweithredu hyn sy'n ffurfio'r cynllun gweithredu a gynhwysir isod yn y ddogfen hon.

### *Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (ACEM)*

Mae ACEM yn asesu'n annibynnol heddluoedd a gweithgarwch plismona o dimau cymdogaeth i droseddau difrifol. Mae ACEM yn penderfynu ar ddyfnder ac amlder arolygiadau a meysydd i'w harolygu yn seiliedig ar ei barn ar yr hyn sydd er budd y cyhoedd. Mae rhaglen arolygu flynyddol ACEM yn cael ei chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Cartref yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

### **Asesu effeithiolrwydd elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu**

Trafodir llawer o elfennau allweddol y fframwaith llywodraethu uchod o dan "Cyfrifoldebau". Mae pob un o'r grwpiau/unigolion a nodwyd uchod yn chwarae rôl



allweddol o ran sicrhau bod trefniadau llywodraethu a system o reolaethau mewnol briodol ac addas at y diben ar waith. Pan nodir gwendidau o ran effeithiolrwydd yr elfennau hyn, maent yn cael eu cryfhau er mwyn sicrhau bod y fframwaith llywodraethu yn dal i fod yn gadarn.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r elfennau allweddol canlynol hefyd yn bodoli i atgyfnerthu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ymhellach:

### *Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol*

Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Prif Gwnstabl yn eu harddel i gyfarwyddo a rheoli'r heddlu a'i weithgareddau er mwyn bod yn atebol i'w gymunedau, ymgysylltu â hwy a'u harwain. Mae'n galluogi'r Comisiynydd i fonitro a yw ei amcanion strategol yn cael eu cyflawni ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a rhoi gwerth am arian.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw a'i nod yw rheoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly dim ond sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau na châi polisïau, nodau nac amcanion eu cyflawni, gwerthuso tebygolrwydd y câi'r risgiau hynny eu gwireddu a'u heffaith bosibl, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Er bod y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi bod ar waith ers 2014/15 a'i fod yn cael ei adolygu'n flynyddol, gyda dyfodiad Comisiynydd newydd a Phrif Gwnstabl newydd mae angen adolygiad mwy sylweddol o'r ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n well y strwythurau a'r modelau gweithredu sy'n newid o fewn y ddau sefydliad. Gan fod y Cynllun Heddlu a Throseddau newydd wedi cael ei gyhoeddi bellach, caiff y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ei ddiweddarau i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y ddwy Gorfforaeth Undyn a darparu trefniadau sicrwydd digonol ar eu cyfer.

### *Bwrdd Plismona/Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu*

System fewnol sy'n cynnig proses gadarn i'r Comisiynydd ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddau yw'r Bwrdd Plismona. Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno dull craffu sy'n seiliedig ar risg ac mae'r Bwrdd Plismona yn cyfarfod bob pythefnos, gan ymdrin â materion o dan themâu ar y cyfan. At hynny, mae Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn cyfarfod bob chwarter ac yn cynnig ffordd fwy ffurfiol o fonitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pedair blaenoriaeth a nodwyd yn y Cynllun Heddlu a Throseddau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau y caiff yr Heddlu ei herio'n rheolaidd, gan arwain at amgylchedd o welliant parhaus.

Roedd y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn cyfarfod yn amlach yn flaenorol. Fodd bynnag, teimlwyd nad oedd amseriadau'r cyfarfodydd yn gyson â pha mor aml roedd angen ystyried materion ac felly mae'r cyfarfodydd newydd, er eu bod yn llai aml, yn cynnig trefn fonitro fwy effeithiol â mwy o ffocws. Bwriedir cadw llygad ar lwyddiant y system newydd a'i diwygio os bydd angen.

Cyhoeddir siarter y Bwrdd Plismona fel adran 6 (Gwneud Penderfyniadau) o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

*Cofnodion Cyhoeddus o Benderfyniadau*

Mae'r Comisiynydd yn paratoi cofnod cyhoeddus o benderfyniadau a wneir. Mae pob penderfyniad yn cael ei lofnodi gan y Comisiynydd sy'n cytuno i gadw at y saith egwyddor a amlinellir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus – Egwyddorion NOLAN – wrth wneud ei benderfyniadau.

Mae'r cofnodion yn sicrhau bod pob penderfyniad arwyddocaol a wneir gan y Comisiynydd yn dryloyw i'r cyhoedd a chânt eu hadolygu bob chwarter gan Banel yr Heddlu a Throsedd.

*Y Cynllun a'r Cynllun Cyflawni*

Roedd Cynllun Heddlu a Throsedd Christopher Salmon ar waith drwy gydol 2016/17 a chyhoeddodd Dafydd Llywelyn ei Gynllun newydd ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Er mwyn ategu'r Cynllun newydd, mae'r Prif Gwnstabl wedi datblygu Cynllun Cyflawni sy'n dangos sut mae gweithgareddau'r Heddlu yn cefnogi ac yn cyflawni Cynllun y Comisiynydd. Bydd hon yn ddogfen allweddol i'w defnyddio i sicrhau bod gweithgareddau'r Heddlu yn gyson â blaenoriaethau'r Comisiynydd ac yn gam cadarnhaol ymlaen i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ar gyfer y ddwy Gorfforaeth Undyn yn y flwyddyn sydd i ddod.

*Fframwaith Risg*

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ill dau wedi datblygu cofrestr risg gorfforaethol a dynamig ac mae'r rhain bellach wedi'u hymgorffori'n llawn yn y sefydliadau. Mae'r Comisiynydd newydd ddatblygu cynllun craffu sy'n seiliedig ar risg ar ddiwedd 2016/17 er mwyn sicrhau bod gweithgareddau craffu yn ystyried risgiau cynhenid ac yn cael eu hysgogi ganddynt. Bydd y dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar risg yn dechrau o ddifrif yn y flwyddyn ariannol 2017/18 ond cydnabyddir ei fod yn gam cadarnhaol ymlaen i sicrhau bod ffocws yn cael ei roi ar y meysydd lle ceir yr angen mwyaf yn seiliedig ar risg.

**Barn ar y lefel o sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi**

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynnal, o leiaf bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Fel y nodir uchod, mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol wedi dirprwyo cyfrifoldeb am adolygu'r fframwaith llywodraethu corfforaethol ac mae hefyd yn goruchwyllo'r ffordd y caiff ei weithredu.

Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ac mae wedi cael ei lywio gan y canlynol:

- Barn Panel yr Heddlu a Throsedd;
- Barn y Cyd-bwyllgor Archwilio;
- Gwaith Archwilio Mewnol;
- Adolygiad a gwaith Swyddfa Archwilio Cymru;
- Trafodaethau a chamau gweithredu'r Bwrdd Plismona;
- Adolygiadau ac adroddiadau ACEM;
- Adolygiadau eraill;
- Materion cenedlaethol;

- Risgiau fel y'u nodwyd ar y gofrestr risg gorfforaethol a'r gofrestr risg ddynamig;
- Materion a godir yng nghyfarfodydd Grŵp y Prif Swyddogion;
- Cwynion a gofnodir gan y Swyddfa Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r dystiolaeth ganlynol i'w nodi'n benodol:

**SAC** - Rhoddodd SAC farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015/16 Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Cadarnhaodd hefyd fod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

**Archwilio Mewnol** – Prif rôl archwilio mewnol yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn ag effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau. I'r perwyl hwn, mae'r Archwilydd Mewnol yn cyflwyno barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol, yn un o'r ffynonellau allweddol o dystiolaeth sy'n ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. O ran 2016/17, mynegodd yr archwilydd mewnol, TIAA Ltd y farn ganlynol;

*"I am satisfied that sufficient internal audit work has been undertaken to allow me to draw a reasonable conclusion as to the adequacy and effectiveness of Dyfed Powys Police's risk management, control and governance processes. In my opinion, the Police and Crime Commissioner and Chief Constable of Dyfed Powys Police has adequate and effective management, control and governance processes to manage the achievement of its objectives."*

Cyflwynwyd dau adroddiad i'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd cyfyngedig mewn perthynas â rheolaethau mewnol ac roedd y rhain yn ymwneud â'r Swyddfa Gwasanaethau Cyhoeddus a Thaliadau Credydwyd. Ym mhob archwiliad arall a gynhaliwyd yn ystod 2016/17 rhoddwyd sicrwydd rhesymol neu sylweddol ac mae pob un o'r camau gweithredu â'r flaenoriaeth uchaf y cytunwyd arnynt wedi cael eu cwblhau. Caiff cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio ei fonitro gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

**ACEM** – Yn ystod 2016/17, gwelwyd lefel sylweddol o weithgarwch arolygu gan ACEM o fewn yr Heddlu. Mae Rhaglen Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd, Arweinyddiaeth a Chyfreithlondeb yr Heddlu oll wedi dod i'r casgliad bod "Angen Gwella" ar yr Heddlu yn gyffredinol ac ym mhob maes. Mae'r adroddiadau hyn wedi cael eu trafod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac mae'r Heddlu wedi rhoi trefniant ychwanegol ar waith i gydgyssylltu a rheoli'r holl waith sy'n ymwneud ag ACEM. Nod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yw gweld y graddau hyn yn gwella i fod yn 'dda' yn y dyfodol agos ac mae'r camau gweithredu hyn wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu isod.

### *Casgliad*

Er y cydnabyddir bod rhagor o waith i'w wneud (fel y'i crynhoir yn y cynllun gweithredu isod), aseswyd bod y trefniadau llywodraethu presennol yn ddigonol i roi sicrwydd i'r ddwy Gorfforaeth Undyn.

**Cynllun gweithredu y cytunwyd arno**

Bydd y camau gweithredu canlynol yn cael eu cymryd yn ystod 2017/18:

Cam Gweithredu	Cysylltiad â'r Egwyddor
Canfod pa mor dda y deallir y Cod Moeseg a'r broses atgyfeirio ynghyd â thryloywder adborth	A
Sicrhau bod moeseg ac uniondeb yn cael eu hatgyfnerthu drwy'r broses	A
Sefydlu Grŵp Cyfeirio Proffesiynol	B
Cynyddu ymgysylltu â'r gymuned ar lefel gorfforaethol	B
Ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob achos busnes a syniad newydd	C
Datblygu proses ar gyfer trafod a gweithredu syniadau/cynlluniau busnes/deddfwriaeth newydd (proses drws ffrynt)	C
Datblygu ac ymgorffori strwythurau perfformiad i gefnogi'r Cynllun Cyflawni	D
Creu cronfa o sgiliau a chymwysterau staff er mwyn hwyluso'r defnydd gorau o'r adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael	E
Datblygu Strategaeth Arweinyddiaeth	E
Cyflwyno Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol	E
Sicrhau gradd "da" gan ACEM yn arolygiad PEEL o effeithlonrwydd	F
Sicrhau gradd "da" gan ACEM yn arolygiad PEEL o effeithiolrwydd	F
Sicrhau gradd "da" gan ACEM yn arolygiad PEEL o gyfreithlondeb	F
Llunio a chyhoeddi cynllun o'n prosesau a'n systemau archwilio a'n profion cydymffurfiaeth ein hunain	G
Cysylltu'r cynllun gweithredu llywodraethu corfforaethol â'r gofrestr risg	G

**Sut mae materion yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn flaenorol wedi cael eu datrys**

- Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol - Cyflwynwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd newydd ar 1 Ebrill 2014. Cyflwynwyd fersiwn wedi'i diweddarau ar ddechrau 2015/16 ar ôl i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gael ei adolygu o ran ei addasrwydd a'i lwyddiant. Mae bellach wedi'i ymgorffori yn y sefydliad a chaiff ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r adolygiad i'w gynnal yn 2016/17 wedi cael ei ohirio nes bod y Cynllun newydd wedi'i gyhoeddi, gan roi cyfle i gysoni'r trefniadau yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol â'r Cynllun a Chynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl. Bydd y gwaith hwn yn dechrau'n gynnar yn 2017/18.
- Rheoli risg – Yn ystod 2014/15 datblygwyd fframwaith risg newydd a mabwysiadodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gofrestr risg gorfforaethol ac yna gofrestr risg ddynamig i gofnodi a rheoli risgiau o fewn y sefydliad. Mae'r Heddlu wedi mabwysiadu'r trefniadau rheoli risg newydd ac wedi datblygu ei awydd i

fentro drwy'r Heddlu cyfan yn ystod 2015/16. Mae'r Comisiynydd bellach wedi ymgorffori ei gofrestrau yn y sefydliad hefyd ac wedi mynd ymhellach drwy ddatblygu dull craffu sy'n seiliedig ar risg i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.

- Gweithio mewn Partneriaeth – Mae'r Prif Gwnstabl wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu trefniadau llywodraethu mewnol ar gyfer cydweithredu.
- Parhad Busnes – Mae Archwilio Mewnol wedi codi pwynt gweithredu (brys) blaenoriaeth 1 mewn perthynas â pharhad busnes. Cwblhawyd y cam gweithredu hwn yn ystod 2016/17.
- Cynhaliodd ACEM nifer sylweddol o arolygiadau yn ystod 2015/16 (a rhagor yn ystod 2016/17) - Yn benodol, asesodd yr Arolygiadau o Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb (PEEL) yr Heddlu gan ACEM a gynhaliwyd yn 2015 a 2016 fod "Angen gwella" ar yr Heddlu. Mae'r Heddlu wedi rhoi cynlluniau gweithredu ar waith i wneud gwelliannau a bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2017/18.
- Yn ystod 2015/16, cafodd yr Heddlu sylw negyddol yn y wasg mewn perthynas â faint o dreuliau adleoli a oedd yn cael eu talu o dan bolisi blaenorol Awdurdod yr Heddlu yn unol â Rheoliadau'r Heddlu. Mae'r polisïau hyn wedi'u diwygio bellach ac mae'r adolygiad o becynnau i brif swyddogion wedi'i gynnal ac mae'r cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau.
- Cyfeiriwyd honiad at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a barnwyd ei fod yn addas ar gyfer ymchwiliad lleol gan Gwnstabiliaeth West Mercia ynglŷn â goblygiadau perthynas flaenorol rhwng uwch bersonél yr Heddlu ar faterion mewnol yr Heddlu neu fel arall. Mae'r mater wedi dod i ben ac mae'r ddau unigolyn a fu'n destun yr arolygiad wedi gadael y sefydliad bellach a dyna ddiwedd ar y mater.
- Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn ymchwilio i atgyfeiriad gan yr Heddlu i honiadau a wnaed yn erbyn y Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth. Mae'r honiadau yn ymwneud â thaliadau a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys am wasanaethau cyfreithiol dros nifer o flynyddoedd i siambr bargyfreithwyr lle roedd ei gŵr ar y pryd yn gweithio. Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn ymchwilio i rôl y Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth o ran rhoi cyfarwyddyd i'r siambrau, cymeradwyo unrhyw anfonebau a ph'un a ddatganwyd achos posibl o wrthdaro buddiannau, yn ôl y gofyn, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r heddlu. Mae'r ymchwiliad wedi dod i ben a'r dyfarniad yw nad oes achos i'w ateb o ran camymddygiad. Dyna ddiwedd ar y mater hwn.
- Mae'r Heddlu wedi cyfeirio manylion achosion o dorri diogelwch gwybodaeth ei hun i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a oedd yn cynnwys rhyddhau data personol cyfrinachol i drydydd parti yn anfwriadol gan yr Heddlu. Cododd hyn o ganlyniad i wall dynol a gwendidau yn systemau'r Heddlu a oedd yn cynnwys

poblogi cyfeiriadau e-bost yn awtomataidd. O ganlyniad, mae'r Heddlu wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion sylweddol hyn ond talwyd dirwy o £120,000 yn 2016/17. Nid yw canlyniadau ymchwiliadau pellach i achosion eraill o dorri diogelwch wedi'u penderfynu eto a chânt eu hadolygu pan fyddant ar gael. Os bydd yn briodol, caiff cynllun gweithredu ei lunio i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir.

- Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru farn ddiamedd ar ddatganiadau 2015/16 Comisiynydd Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Cadarnhaodd hefyd fod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Nododd hefyd, er bod cynnydd wedi'i wneud ar ddatblygu cynlluniau i reoli'r pwysau ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hwy, fod angen gwneud rhagor o waith. Mae'r gwaith hwn wedi parhau yn ystod 2016/17 a chynhaliwyd dadansoddiadau o sensitifrwydd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb a chyflwynwyd adroddiad ar effeithlonrwydd i ACEM ar ddiwedd 2016/17. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd nifer o faterion pwysig ynglŷn â'r pwysau ariannol parhaus a'r gwaith a wnaed hyd yma i leddfu ychydig ar y pwysau hynny.

## Casgliad

Ar ôl cynnal yr adolygiad, rydym o'r farn bod y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn parhau i gael eu hystyried yn addas at y diben yn unol â'r fframwaith llywodraethu. Ymdriniwyd yn llwyddiannus â nifer o faterion a nodwyd yn flaenorol ac maent wedi dod i ben fel y'i nodir uchod. Wedi dweud hynny, mae'r adolygiad hefyd wedi tynnu sylw at nifer o faterion newydd y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy'n benodol yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Caiff y materion hyn a'r camau gweithredu cysylltiedig eu monitro gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyd-bwyllgor Archwilio dros y deuddeg mis nesaf er mwyn sicrhau y caiff trefniadau llywodraethu eu monitro a'u hatgyfnerthu ymhellach.

Rydym yn cynnig dros y flwyddyn sydd i ddod i gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn diwallu'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiadau o effeithiolrwydd a byddwn yn monitro'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith a'u gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnod:

Llofnod:

Llofnod:

**Dafydd Llywelyn**

**Comisiynydd yr Heddlu  
a Throseddau**

**Carys Morgans**

**Pennaeth Staff**

**Jayne Woods**

**Prif Swyddog Cyllid**

### **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys;
- Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys yn cynnwys y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys yn cynnwys Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth y Grŵp, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp a Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad am Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

### **Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 11, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys a datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn anghywir mewn ffordd berthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gaf wrth gynnal yr archwiliad, neu sy'n anghyson mewn ffordd berthnasol â hynny. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### **Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddau Heddlu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2017 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

### **Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2017 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

### **Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau cysylltiedig :

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac o swm asedau a rhwymedigaethau'r gronfa a'u gwaredu fel yr oeddent ar y dyddiad hwnnw, ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

### **Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu cywir wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

### **Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

25 Gorffennaf 2017

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys sy'n gyfrifol am gynnal ei wefan; nid yw'r gwaith a wnaed gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n gyntaf ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.



**Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2016/17**

Mae hwn yn ddatganiad newydd sy'n adlewyrchu newid cyfrifyddu newydd a gyflwynwyd o dan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17. Dengys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu gan y Grŵp o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti a'r dreth gyngor), o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan y Grŵp yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Dengys hefyd sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng Cyfarwyddiaethau/Gwasanaethau/Adrannau'r Grŵp. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

	<b>Gwariant Net y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol</b>	<b>Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu – cyfeiriwch at Nodyn 8 am ragor o wybodaeth</b>	<b>Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	1,982	38	<b>2,020</b>
Swyddfa'r Prif Gwnstabl	2,015	153	<b>2,168</b>
Cyllidebu/Cyllid Canolog	5,379	(2,945)	<b>2,434</b>
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	8,141	887	<b>9,028</b>
Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Chydymffurfiaeth	1,758	126	<b>1,884</b>
Cyfarwyddiaeth Cyllid	5,751	338	<b>6,089</b>
Cymdogaethau	47,544	6,529	<b>54,073</b>
Ymchwiliadau	22,883	2,616	<b>25,499</b>
Cymorth Gwyddonol	1,491	87	<b>1,578</b>
Cyfiawnder Troseddol	1,109	110	<b>1,219</b>
Safonau Proffesiynol	1,021	110	<b>1,131</b>
Cymdeithasau Staff	190	22	<b>212</b>
Cyfrifon Daliannol/Meysydd Hunanariannu	80	0	<b>80</b>
<b>Eitemau Eithriadol -</b>			
Ailbrisiad o asedau anghyfredol	0	1,008	<b>1,008</b>
Terfynu Contract Menter Cyllid Preifat	0	0	<b>0</b>
Lleihad mewn gwerth mewn perthynas â Banciau Gwlad yr Iâ	0	0	<b>0</b>
<b>COST NET GWASANAETHAU</b>	<b>99,344</b>	<b>9,079</b>	<b>108,423</b>
Incwm a Gwariant Arall	(93,341)	20,513	<b>(72,828)</b>
<b>GWARGED NEU DDIFFYG (Cyn trosglwyddiadau o'r Gronfa Wrth Gefn)</b>	<b>6,003</b>	<b>29,592</b>	<b>35,595</b>
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	(6,003)		
<b>GWARGED NEU DDIFFYG AM Y FLWYDDYN</b>	<b>0</b>		
Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill 2016	(4,500)		
Llai Diffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn ystod y Flwyddyn	0		
<b>Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol ym mis Mawrth 2017</b>	<b>(4,500)</b>		

**Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 2015/16**

	<b>Gwariant Net y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol</b>	<b>Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu – cyfeiriwch at Nodyn 8 am ragor o wybodaeth</b>	<b>Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	999	6	<b>1,005</b>
Swyddfa'r Prif Gwnstabl	1,590	170	<b>1,760</b>
Cyllidebu/Cyllid Canolog	15,823	(10,730)	<b>5,093</b>
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	8,192	1,147	<b>9,339</b>
Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Chydymffurfio	1,747	121	<b>1,868</b>
Cyfarwyddiaeth Cyllid	5,343	108	<b>5,451</b>
Cymdogaethau	50,338	8,296	<b>58,634</b>
Ymchwiliadau	16,554	2,491	<b>19,045</b>
Cymorth Gwyddonol	1,553	91	<b>1,644</b>
Cyfiawnder Troseddol	957	133	<b>1,090</b>
Safonau Proffesiynol	927	127	<b>1,054</b>
Cymdeithasau Staff	226	31	<b>257</b>
Cyfrifon Daliannol/Meysydd Hunanariannu	174	(70)	<b>104</b>
<b><i>Eitemau Eithriadol -</i></b>			
Ailbrisiad o asedau anghyfredol	0	(34)	<b>(34)</b>
Terfynu Contract Menter Cyllid Preifat	1,469	0	<b>1,469</b>
Lleihad mewn gwerth mewn perthynas â Banciau Gwlad yr Iâ	(40)	0	<b>(40)</b>
<b>COST NET GWASANAETHAU</b>	<b>105,852</b>	<b>1,887</b>	<b>107,739</b>
Incwm a Gwariant Arall	(93,332)	20,921	<b>(72,411)</b>
<b>GWARGED NEU DDIFFYG (Cyn trosglwyddiadau o'r Gronfa Wrth Gefn)</b>	<b>12,520</b>	<b>22,808</b>	<b>35,328</b>
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	(12,520)		
<b>GWARGED NEU DDIFFYG AM Y FLWYDDYN</b>	<b>0</b>		
Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill 2015	(4,500)		
Llai Diffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn ystod y Flwyddyn	0		
<b>Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol ym mis Mawrth 2016</b>	<b>(4,500)</b>		

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2016/17

Mae'r Datganiad hwn wedi cael ei gwblhau yn unol â'r gofynion adrodd newydd a gyflwynwyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17.

Y Grŵp			Nod	Y Comisiynydd		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
2,993	(973)	<b>2,020</b>	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	6,139	(4,119)	<b>2,020</b>
2,289	(121)	<b>2,168</b>	Swyddfa'r Prif Gwnstabl	0	(121)	<b>(121)</b>
6,694	(4,260)	<b>2,434</b>	Cyllidebu/Cyllid Canolog	0	(4,260)	<b>(4,260)</b>
9,516	(488)	<b>9,028</b>	Cyfarwyddiaeth Adnoddau	0	(488)	<b>(488)</b>
2,085	(201)	<b>1,884</b>	Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Chydymffurfiaeth	0	(201)	<b>(201)</b>
6,345	(256)	<b>6,089</b>	Cyfarwyddiaeth Cyllid	0	(256)	<b>(256)</b>
54,644	(571)	<b>54,073</b>	Cymdogaethau	648	(571)	<b>77</b>
25,710	(211)	<b>25,499</b>	Ymchwiliadau	0	(211)	<b>(211)</b>
1,578	0	<b>1,578</b>	Cymorth Gwyddonol	0	0	<b>0</b>
1,310	(91)	<b>1,219</b>	Cyfiawnder Troseiddol	0	(91)	<b>(91)</b>
1,134	(3)	<b>1,131</b>	Safonau Proffesiynol	0	(3)	<b>(3)</b>
212	0	<b>212</b>	Cymdeithasau Staff	0	0	<b>0</b>
6,460	(6,380)	<b>80</b>	Cyfrifon Daliannol/Meysydd Hunanariannu	0	(6,380)	<b>(6,380)</b>
			<b><i>Eitemau Eithriadol -</i></b>			
1,008	0	<b>1,008</b>	Ailbrisiad o asedau anghyfredol	1,008	0	<b>1,008</b>
<b>121,978</b>	<b>(13,555)</b>	<b>108,423</b>	<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>7,795</b>	<b>(16,701)</b>	<b>(8,906)</b>
0	(14,345)	<b>(14,345)</b>	Incwm/gwariant gweithredu arall	13	0	<b>(14,345)</b>
36,781	(1,513)	<b>35,268</b>	Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi	14	868	<b>(645)</b>
0	(93,751)	<b>(93,751)</b>	Trethiant ac incwm grant amhenodol	15	0	<b>(93,751)</b>
0	0	<b>0</b>	Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)		153,242	<b>153,242</b>
<b>158,759</b>	<b>(123,164)</b>	<b>35,595</b>	<b>(Gwarged)/diffyg ar Ddarparu gwasanaethau</b>		<b>161,905</b>	<b>(126,310)</b>
		<b>(7,742)</b>	Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisiad asedau anghyfredol			<b>(7,742)</b>
		<b>271,601</b>	(Enillion)/colledion actiwaraid ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn			<b>178</b>
		<b>0</b>	Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)			<b>271,423</b>
		<b>263,859</b>	<b>Incwm a gwariant cynhwysfawr arall</b>			<b>263,859</b>
		<b>299,454</b>	<b>Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr</b>			<b>299,454</b>



**Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn**

**Blwyddyn Ariannol 2016/17**

	Datganiad / Nodyn	Balans y Gronfa Gyffredinol	Cronfeydd Refeniwr Wrth Gefn a Glustnodwy	Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwy	Cronfa Derbyniadau Cwyalaf Wrth	Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig Wrth Gefn	Cronfa Offerynnau Ariannol sydd Ar Gael i'w Gwerthu Wrth Gefn	Cyfrif Absenoldeba u a Gronnwyd	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn	
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
	<b>Balansau ar 31 Mawrth 2016 a gariwyd ymlaen</b>	4,500	9,174	18,683	0	505	32,862	13,253	59,282	205	165	(503)	(1,011,819)	(939,417)	(906,555)	
	<b>Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2016/17:</b>															
	Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau	(35,595)	0	0	0	0	(35,595)	0	0	0	0	0	0	0	(35,595)	
	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	7,742	0	0	0	0	(271,601)	(263,859)	(263,859)	
	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(35,595)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(35,595)</b>	<b>7,742</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(271,601)</b>	<b>(263,859)</b>	<b>(299,454)</b>	
	Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y Rheoliadau	11	29,592	0	0	(1)	374	29,965	(285)	(357)	(114)	(81)	135	(29,263)	(29,965)	0
	<b>Cynnydd/(Lleihad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</b>	<b>(6,003)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(1)</b>	<b>374</b>	<b>(5,630)</b>	<b>7,457</b>	<b>(357)</b>	<b>(114)</b>	<b>(81)</b>	<b>135</b>	<b>(300,864)</b>	<b>(293,824)</b>	<b>(299,454)</b>	
	Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	12	6,003	(2,502)	(3,500)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
	<b>Cynnydd/(Lleihad) yn 2016/17</b>	<b>0</b>	<b>(2,502)</b>	<b>(3,500)</b>	<b>(1)</b>	<b>374</b>	<b>(5,630)</b>	<b>7,457</b>	<b>(357)</b>	<b>(114)</b>	<b>(81)</b>	<b>135</b>	<b>(300,864)</b>	<b>(293,824)</b>	<b>(299,454)</b>	
	<b>Balansau ar 31 Mawrth 2017 a gariwyd ymlaen</b>	<b>4,500</b>	<b>6,671</b>	<b>15,183</b>	<b>(1)</b>	<b>879</b>	<b>27,233</b>	<b>20,709</b>	<b>58,925</b>	<b>91</b>	<b>84</b>	<b>(368)</b>	<b>(1,312,684)</b>	<b>(1,233,242)</b>	<b>(1,206,009)</b>	

## Blwyddyn Ariannol 2015/16

	Datganiad / Nodyn	Balans y Gronfa Gyffredinol	Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd	Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn a	Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig Wrth Gefn	Cronfa Offerynnau Ariannol sydd Ar Gael i'w Gwerthu Wrth Gefn	Cyfrif Absenoldebau	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balansau ar 31 Mawrth 2015 a gariwyd ymlaen		4,500	22,849	17,528	627	45,504	13,191	50,908	0	0	(534)	(1,047,283)	(983,718)	(938,214)
<b>Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2015/16:</b>		0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau		(35,328)	0	0	0	(35,328)	0	0	0	0	0	0	0	(35,328)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	0	0	347	0	0	0	0	66,641	66,988	66,988
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		<b>(35,328)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(35,328)</b>	<b>347</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>66,641</b>	<b>66,988</b>	<b>31,659</b>
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y Rheoliadau	8	22,808	0	0	(122)	22,686	(285)	8,374	205	165	31	(31,177)	(22,686)	0
<b>Cynnydd/(Lleihad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</b>		<b>(12,520)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(122)</b>	<b>(12,642)</b>	<b>62</b>	<b>8,374</b>	<b>205</b>	<b>165</b>	<b>31</b>	<b>35,464</b>	<b>44,301</b>	<b>31,659</b>
Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd		12,520	(13,675)	1,155	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cynnydd/(Lleihad) yn 2015/16</b>		<b>0</b>	<b>(13,675)</b>	<b>1,155</b>	<b>(122)</b>	<b>(12,642)</b>	<b>62</b>	<b>8,374</b>	<b>205</b>	<b>165</b>	<b>31</b>	<b>35,464</b>	<b>44,301</b>	<b>31,659</b>
Balansau ar 31 Mawrth 2016 a gariwyd ymlaen		4,500	9,174	18,683	505	32,862	13,253	59,282	205	165	(503)	(1,011,819)	(939,417)	(906,555)

## Y Fantolen

Y Grŵp 2015/16	Y Comisiynydd 2015/16		Nodyn	Y Grŵp 2016/17	Y Comisiynydd 2016/17
£'000	£'000			£'000	£'000
66,655	66,655	Eiddo, offer a chyfarpar	16	73,729	73,729
4,579	4,579	Eiddo buddsoddi	17	4,232	4,232
260	260	Asedau anniriaethol	19	177	177
1,040	1,040	Asedau Dros Ben		1,497	1,497
0	0	Asedau a ddelir i'w gwerthu	25	0	0
0	0	Benthyciadau hirdymor		6,580	6,580
91	91	Dyledwyr hirdymor	20	23	23
<b>72,625</b>	<b>72,625</b>	<b>Asedau hirdymor</b>		<b>86,238</b>	<b>86,238</b>
36,220	36,220	Buddsoddiadau byrdymor	21	22,341	22,341
368	0	Rhestrau eiddo	22	429	0
6,489	6,149	Dyledwyr byrdymor	23	7,126	6,835
1,921	1,921	Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	24	2,209	2,209
0	708	Trosglwyddo o fewn y grŵp		0	720
<b>44,998</b>	<b>44,998</b>	<b>Asedau cyfredol</b>		<b>32,105</b>	<b>32,105</b>
(157)	(157)	Benthycia byrdymor	21	(172)	(172)
(8,078)	(2,471)	Credydwyr byrdymor	26	(7,731)	(2,551)
(939)	(939)	Darpariaethau	27	(782)	(782)
0	(5,607)	Trosglwyddo o fewn y grŵp		0	(5,180)
<b>(9,174)</b>	<b>(9,174)</b>	<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>(8,685)</b>	<b>(8,685)</b>
0	(1,011,919)	Credydwyr hirdymor		0	(1,312,506)
(2,312)	(2,312)	Benthycia hirdymor	21	(2,138)	(2,138)
(1,011,819)	100	Rhwymedigaethau hirdymor eraill	21	(1,312,684)	(178)
(873)	(873)	Darpariaethau	27	(845)	(845)
<b>(1,015,004)</b>	<b>(1,015,004)</b>	<b>Rhwymedigaethau hirdymor</b>		<b>(1,315,667)</b>	<b>(1,315,667)</b>
<b>(906,555)</b>	<b>(906,555)</b>	<b>Asedau/rhwymedigaethau net</b>		<b>(1,206,009)</b>	<b>(1,206,009)</b>
(32,862)	(32,862)	Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio	28	(27,233)	(27,233)
939,417	939,417	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	29	1,233,242	1,233,242
<b>906,555</b>	<b>906,555</b>	<b>Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn</b>		<b>1,206,009</b>	<b>1,206,009</b>

## Datganiad Llif Arian Parod

Y Grŵp 2015/16	Y Comisiynydd 2015/16		Nodyn	Y Grŵp 2016/17	Y Comisiynydd 2016/17
£'000	£'000			£'000	£'000
<b>35,328</b>	<b>35,328</b>	<b>(Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau</b>		<b>35,595</b>	<b>35,595</b>
(33,753)	(33,753)	Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol		(32,243)	(32,243)
(317)	(317)	Addasiadau ar gyfer eitemau wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu		(426)	(426)
<b>1,258</b>	<b>1,258</b>	<b>Llifau arian parod net o Weithgareddau Gweithredu</b>	<b>30</b>	<b>2,926</b>	<b>2,926</b>
2,109	2,109	Gweithgareddau Buddsoddi	<b>31</b>	(4,341)	(4,341)
1,139	1,139	Gweithgareddau Cyllido	<b>32</b>	1,127	1,127
<b>4,506</b>	<b>4,506</b>	<b>Cynnydd neu leihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod</b>		<b>(288)</b>	<b>(288)</b>
6,427	6,427	Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd		1,921	1,921
<b>1,921</b>	<b>1,921</b>	<b>Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd</b>	<b>24</b>	<b>2,209</b>	<b>2,209</b>



## Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Y Grŵp 2015/16	Y Comisiynydd 2015/16	Cyfrif y Gronfa	Y Grŵp 2016/17	Y Comisiynydd 2016/17
£'000	£'000		£'000	£'000
		<b>Cyfraniadau derbyniadwy:</b>		
(10,348)	0	• Cyfraniadau'r cyflogwr	(10,236)	0
(168)	0	• Incwm arall	(373)	0
(5,865)	0	Cyfraniadau swyddogion	(5,770)	0
<b>(16,381)</b>	<b>0</b>		<b>(16,379)</b>	<b>0</b>
(772)	0	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill	78	0
		<b>Buddiannau taladwy:</b>		
22,557	0	• Pensiynau	23,273	0
7,281	0	• Cymudo a buddiannau ymdeol ar ffurf cyfandaliadau	7,286	0
<b>29,066</b>	<b>0</b>		<b>30,637</b>	<b>0</b>
		<b>Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael:</b>		
(476)	0	• Trosglwyddo i gronfeydd pensiwn eraill	(58)	0
0	0	• Ad-dalu cyfraniadau	5	0
319	0	• Gwariant arall	20	0
<b>(157)</b>	<b>0</b>		<b>(33)</b>	<b>0</b>
<b>12,528</b>	<b>(12,528)</b>	<b>Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn</b>	<b>14,225</b>	<b>(14,225)</b>
(12,528)	12,528	<b>Cyfraniad ychwanegol o Gronfa'r Heddlu (par grant y Swyddfa Gartref)</b>	(14,225)	14,225
<b>0</b>	<b>0</b>		<b>0</b>	<b>0</b>

Y Grŵp 2015/16	Y Comisiynydd 2015/16	Datganiad am Asedau Net	Y Grŵp 2016/17	Y Comisiynydd 2016/17
£'000	£'000		£'000	£'000
		<b>Asedau Cyfredol</b>		
49	0	Diffyg dyledus	0	0
<b>49</b>	<b>0</b>		<b>0</b>	<b>0</b>
		<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>		
(49)	0	Gwarged dyledus	0	0
<b>(49)</b>	<b>0</b>		<b>0</b>	<b>0</b>
<b>0</b>	<b>0</b>		<b>0</b>	<b>0</b>

Diffyg Ariannu i'w unioni gan Gronfa'r Heddlu

Gostyngodd cyfraniadau cynllun pensiwn Swyddogion Heddlu y Cyflogwr o 24.2% i 21.3%. Mae'r gwahaniaeth o 2.9% wedi'i gadw gan y trysorlys, sef y diffyg ariannu i'w unioni gan Gronfa'r Heddlu.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1. Polisiâu cyfrifyddu

#### Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2017. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol ar gyfer ei hun a'r Grŵp o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17 a Chod Ymarfer Adrodd 2016/17 yr Heddlu yn bennaf, wedi'u hategu gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbriso categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

#### Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y dyfodol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd yn y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn peri addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fydd eu hangen yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol neu pan fydd y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Grŵp y bydd newidiadau i bolisiâu cyfrifyddu. Pan fydd newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Caiff gwallau perthnasol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol.

#### Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, ac nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn benodol:

- Cydnabyddir referniw o werthu nwyddau pan fydd y Grŵp yn trosglwyddo risgiau a buddiannau sylweddol perchenogaeth i'r prynwr a'i bod yn debygol y bydd y buddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Grŵp.
- Cydnabyddir referniw o ddarparu gwasanaethau pan fydd y Grŵp yn gallu mesur canran y trafodyn a gwblhawyd yn ddibynadwy ac mae'n debygol y bydd y buddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Grŵp.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogaion) fel gwariant pan fydd y gwasanaethau yn cael eu derbyn yn hytrach na phan fydd y taliadau yn cael eu gwneud.

- Cyfrifir llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau fel incwm a gwariant yn y drefn honno ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifau arian parod a bennir gan y contract.
- Pan fydd referniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes unrhyw arian parod wedi cael ei dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Pan na chaiff dyledion eu setlo o bosibl, mae balans dyledwyr yn cael ei leihau a chodir tâl ar referniw am yr incwm na allai gael ei gasglu o bosibl.

### **Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**

Codir am gostau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaethau yn unol â threfniadau'r Grŵp ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

### **Eitemau Eithriadol**

Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'r swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Grŵp.

### **Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y caiff y Datganiad o Gyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiadau:

- Y rhai hynny sy'n rhoi tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, datgelir natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig yn y nodiadau.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon.

### **Eiddo, offer a chyfarpar**

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, offer a chyfarpar ei gyfalafu ar sail cronïadau. Codir am wariant sy'n cynnal potensial ased i sicrhau buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu at hynny (h.y. gwaith atgyweirio a chynnal a chadw) fel traul pan eir iddo.

Caiff gwariant sy'n is na lefel de minimis o £6,000 fesul eitem ei drin fel Refeniw a chodir amdano pan eir iddo.

Caiff asedau eu mesur ar gost i ddechrau ac yna'u cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r sylfeini mesur canlynol:

- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol wedi'i dibrisio;
- Adeiladau Gweithredol – Cost Adnewyddu wedi'i Dibrisio;
- Asedau dros ben / Asedau a ddelir i'w gwerthu – Gwerth teg – a adolygir yn flynyddol;
- Eiddo Buddsoddi – gwerth teg (a adolygir yn flynyddol bob pum mlynedd);
- Pob ased arall - gwerth teg (a ail-brisir bob pum mlynedd), wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol.

Cyfatebir cynnydd mewn prisiadau gan gredydau i'r Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn er mwyn cydnabod enillion nas gwireddwyd. Mae'r Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisió a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef ei dyddiad gweithredu ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Asesir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn o ran p'un a oes unrhyw arwydd y gall fod lleihad yng ngwerth yr ased. Lle mae arwyddion yn bodoli a lle yr amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn berthnasol, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased a, lle mae hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled mewn gwerth ar gyfer y diffyg.

Lle y nodir colledion mewn gwerth, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- Lle mae balans o enillion ailbrisió ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn, mae swm cario'r ased yn cael ei leihau yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronodig).
- Lle nad oes unrhyw falans yn y Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn neu lle mae balans annigonol, mae swm cario'r ased yn cael ei leihau yn erbyn y llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

#### Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar drwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Crynhoir oes ddefnyddiol a gwerth gweddilliol asedau yn y nodyn ar Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Pan fydd gan eitem o Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol o'i chymharu â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Mae'r Grŵp wedi cymhwyso'r terfynau de-minimis canlynol, nad yw'r gydran yn cael ei mesur ar wahan os yw islaw hynny:

Oes cydran (blynyddoedd )	0- 1 0	10- 15	15- 20	20- 30	30- 40	Dros 40
De-minimis (£'000)	5 0	10 0	20 0	30 0	75 0	1,00 0

Mae enillion ailbrisió hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant y gellid bod wedi ei godi yn seiliedig ar drosglwyddo eu cost hanesyddol bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

#### Asedau Dros Ben

Asedau dros ben yw'r asedau hynny nad ydynt yn cael eu defnyddio'n weithredol yn y busnes (megis eiddo gwag) ac na ellir eu dosbarthu'n "asedau a ddelir i'w gwerthu". Caiff asedau dros ben eu mesur ar sail gwerth teg ar bob dyddiad adrodd, yn seiliedig ar y swm y gellir cyfnewid yr ased amdano rhwng partiön gwybodus ar hyd braich. Cofnodir enillion a cholledion ailbrisió ar linell Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cymhwysir yr un driniaeth at enillion a cholledion ar adeg gwaredu.

#### Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu

Pan ddaw yn debygol y caiff swm cario'r ased ei adenill yn bennaf drwy drafodion gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n Ased a Ddelir

i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbriso ar unwaith cyn ei ailddosbarthu ac yna'i gario ar ba swm bynnag sydd isaf a gwerth teg llai costau i'w werthu. Lle mae lleihad canlyniadol mewn gwerth teg llai costau i'w werthu, caiff y golled ei chofnodi ar linell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cydnabyddir enillion mewn gwerth teg dim ond hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabuwyd yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Caiff symiau a dderbynnir am warediad sy'n fwy na £10,000 eu categoreiddio'n dderbyniadau cyfalaf. Mae'n rhaid i falans y derbyniadau gael ei gredydu i'r gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn, a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd (neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Grŵp i fenthycyca – y gofyniad ariannu cyfalaf) y gellir eu defnyddio.

### **Symiau a Godir ar Refeniw ar gyfer asedau Anghyfredol**

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu eu debydu â'r symiau canlynol er mwyn cofnodi cost dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.

Colledion ailbriso a lleihad mewn gwerth ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion a gronnwyd yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

### **Eiddo buddsoddi**

Eiddo buddsoddi yw eiddo a ddefnyddir i ennill arian rhent a/neu arbrisiad cyfalaf yn unig. Caiff eiddo buddsoddi ei fesur i ddechrau ar gost ac yna ar sail gwerth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partion gwybodus ar hyd braich. Cofnodir enillion a cholledion ailbriso ar linell Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cymhwysir yr un driniaeth at enillion a cholledion ar adeg gwaredu.

### **Asedau anniriaethol**

Caiff gwariant ar asedau anariannol nad oes iddynt sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan y Grŵp o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Grŵp.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur i ddechrau ar gost. Dim ond lle y gellir pennu gwerth teg yr asedau a delir gan y Grŵp drwy gyfeirio at farchnad weithredol y caiff symiau eu hailbriso. Yn ymarferol, nid oes unrhyw un o asedau anniriaethol a delir gan y Grŵp yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly cânt eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio.

### **Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol y gellir eu priodoli i'r gwasanaeth**

Nid yw'n ofynnol i'r Grŵp godi treth gyngor i ariannu dibrisiad, ailbrisiad na cholledion oherwydd lleihad mewn gwerth neu amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at leihau ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly caiff dibrisiant, ailbrisiad a cholledion oherwydd lleihad mewn gwerth ac amorteiddio eu disodli gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol drwy addasu trafodyn â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

## Offerynnau Ariannol

### Rhwymedigaethau Ariannol

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae symiau blynyddol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am log sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ynghyd â llog cronedig.

### Asedau Ariannol

Caiff Benthyciadau a Symiau sy'n Dderbyniadwy eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r Datganiad o Incwm a Gwariant am log sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau a wnaed gan y Grŵp, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n dderbyniadwy sy'n weddill ynghyd â llog cronedig.

### Trosi arian cyfred

Lle mae'r Grŵp wedi ymrwymo i drafodyn wedi'i ddynodi mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodyn ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad roedd y trafodyn yn weithredol.

### **Rhestrau eiddo**

Mae rhestrau eiddo yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar bris cost bresennol. Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylai Rhestrau eiddo gael eu mesur ar gost neu werth gwireddadwy net pa bynnag yw'r isaf. Felly, nid yw'r polisi yn cydymffurfio ag IAS 2 ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol.

### **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuo gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb o roi rhybudd nad yw'n fwy na 24 awr.

Mae'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn golygu buddsoddiadau tra hylifol byrdymor a ddelir ar ddyddiad y fantolen y gellir eu trosi'n symiau hysbys o arian parod yn hawdd ar ddyddiad y fantolen ac sy'n wynebu risg ansylweddol o newidiadau mewn gwerth.

### **Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau lle bu digwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'r Grŵp y mae'n ofynnol ei setlo drwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yn fwy na thebyg, a gellir llunio amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

### **Cronfeydd Wrth Gefn**

Ystyrir bod symiau a neilltuir at ddibenion nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o ddarpariaethau yn gronfeydd wrth gefn. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar gael i ariannu gwariant. Nid yw cronfeydd cyfalaf wrth gefn penodol a grëir o ganlyniad i'r cynllun cyfrifyddu cyfalaf ar gael i dalu am wariant cyfredol ac maent yn cynnwys:

- Cronfa Ailbrisiu Wrth Gefn sy'n cofnodi'r enillion cronedig ar yr asedau sefydlog a ddelir gan y Grŵp sy'n codi o gynnydd mewn gwerth, i'r graddau nad yw'r enillion hyn wedi cael eu treulio gan symudiadau canlyniadol tuag i lawr mewn gwerth;
- Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, sy'n rhoi dull mantoli rhwng y cyfraddau gwahanol y caiff asedau eu dibrisio yn unol â hwy a'u hariannu drwy'r system rheolaethau cyfalaf, drwy gronni:

- O ran debyd – lleihau cost hanesyddol asedau sefydlog wrth iddynt gael eu treulio gan ddibrisiant a lleihad mewn gwerth neu eu dileu ar adeg eu gwaredu;
- O ran credyd – mae'r adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer gwariant cyfalaf ariannu.

### **Trefniadau Cydweithredol**

Cyhoeddodd CIPFA ganllawiau newydd ar "Accounting for Collaboration" sy'n gymwys i'r flwyddyn ariannol 2014/15 ymlaen. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd a'r Heddlu asesu'r holl weithgarwch cydweithredol a chategoreiddio'r rhain yn gydymgyrchoedd neu'n gyd-fentrau a chyfrif am eu cyfran deg o wariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau yn eu cyfrifon unigol. Ceir rhagor o fanylion o dan y nodyn Trefniadau Cydweithredol.

### **Buddiannau cyflogeion**

#### Buddiannau sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddiannau byrdymor i gyflogeion yw'r buddiannau hynny a fydd yn cael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb oherwydd salwch â thâl, taliadau bonws a buddiannau anariannol (e.e. ceir) i gyflogeion cyfredol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser i ffwrdd yn lle tâl ac absenoldeb hyblyg) a enillir gan gyflogeion ond nas cymerir cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cymryd y buddiant. Codir y cronriad ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel y bydd buddiannau gwyliau yn cael eu codi i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd ynddi.

#### Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol.

Pan fydd buddiannau terfynu yn cynnwys pensiynau ychwanegol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai'r swm sy'n daladwy gan y Grŵp i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen neilltuo arian i ac o'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn er mwyn dileu'r dyledion a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu ar ffurf pensiwn ychwanegol a rhoi dyledion ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau sy'n daladwy ond nas telir ar ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

#### Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Mae swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn cael dewis bod yn aelod o un o blith dau gynllun pensiwn ar wahân sy'n berthnasol iddynt:

- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu, a weinyddir drwy Gronfa Bensiwn i'r Heddlu
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn rhoi buddiannau diffiniedig i'w haelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd fel cyflogeion a oedd yn gweithio i'r Grŵp.

Mae'r cynllun Pensiwn hwn i Swyddogion yr Heddlu "heb ei ariannu" sy'n golygu na chaiff unrhyw asedau buddsoddi eu cronni i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol, ac felly ni chaiff unrhyw ddarpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol ei chynnwys yn y fantolen. Mae rhwymedigaethau Cynllun

Llywodraeth Leol y gellir eu priodoli i'r Grŵp wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o daliadau yn y dyfodol a gaiff eu gwneud mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir hyd yma gan gyflogeion, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion ac ati ac amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion presennol.

### Buddiannau yn ôl Disgresiwn

(946)	Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth	(1,081)
<b>(7,388)</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>(7,813)</b>

\*\*Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Heddluoedd yng Nghymru yn cydymffurfio â gofynion sy'n codi o ganllawiau CIPFA ar Gyfrifyddu ar gyfer Cydweithredu. O dan y canllawiau hyn, bu'n rhaid i'r Grŵp asesu'r holl weithgarwch cydweithredol a chyfrif am ei gyfran deg o incwm grant yn ei gyfrifon unigol ers 2014/15.



**38. Partïon cysylltiedig**

Mae'n ofynnol i'r Grŵp/Comisiynydd ddatgelu trafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Grŵp/Comisiynydd neu'r potensial i'r Grŵp/Comisiynydd eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

Llywodraeth Ganolog a Chyrff Cyhoeddus Eraill

Mae gan lywodraeth ganolog ddylanwad sylweddol ar weithrediadau cyffredinol y Grŵp/Comisiynydd – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Grŵp/Comisiynydd yn gweithredu oddi mewn iddo, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan y Grŵp/Comisiynydd â phartïon eraill.

Mae gan y Grŵp/Comisiynydd gydbertnasau busnes, sy'n arwain at drafodion incwm a gwariant, â Chyrff Llywodraeth Ganolog a Chyrff Cyhoeddus eraill fel a ganlyn:

Y Grŵp			Y Comisiynydd	
2016/17			2016/17	
Incwm	Gwariant		Incwm	Gwariant
£'000	£'000		£'000	£'000
(69,188)	994	Y Swyddfa Gartref	(69,188)	0
(18,324)	5	Llywodraeth Cymru	(18,324)	0
(14,295)	4,827	Cyngor Sir Caerfyrddin	(14,295)	19
(6,134)	174	Cyngor Sir Ceredigion	(6,134)	25
(10,765)	583	Cyngor Sir Penfro	(10,765)	300
(12,246)	255	Cyngor Sir Powys	(12,246)	100

Y Grŵp			Y Comisiynydd	
2015/16			2015/16	
Incwm	Gwariant		Incwm	Gwariant
£'000	£'000		£'000	£'000
(68,320)	764	Y Swyddfa Gartref	(68,320)	0
(17,934)	3	Llywodraeth Cymru	(17,934)	0
(14,328)	4,300	Cyngor Sir Caerfyrddin	(14,328)	0
(6,097)	139	Cyngor Sir Ceredigion	(6,097)	0
(10,677)	539	Cyngor Sir Penfro	(10,677)	275
(12,200)	197	Cyngor Sir Powys	(12,200)	0

Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn rhoi ffynhonnell ychwanegol o sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bod systemau rheolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol a bod archwilwyr mewnol yn gweithredu yn unol â'u Cod Ymarfer.

Dangosir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2016/17 yn nodyn 35.

Nid oes unrhyw un o aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio, na phartïon sy'n gysylltiedig â hwy, wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â'r Prif Gwnstabl yn 2016/17.

Uwch Swyddogion

Nid oedd unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Grŵp/Comisiynydd ac Uwch Swyddogion eraill, na phartïon sy'n gysylltiedig â hwy.

Endidau y mae'r Grŵp/Comisiynydd yn eu Rheoli neu'n Dylanwadu'n Sylweddol arnynt

Nid oes unrhyw endidau y mae'r Grŵp/Comisiynydd yn eu rheoli neu'n dylanwadu'n sylweddol arnynt.

**39. Gwariant cyfalaf ac ariannu cyfalaf**

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar referniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan y Grŵp/Comisiynydd, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan y Grŵp/Comisiynydd sydd eto i'w ariannu. Dadansoddir y Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn ail ran y nodyn hwn.

2015/16		2016/17
£'000		£'000
(7,309)	<b>Gofyniad ariannu cyfalaf agoriadol:</b>	0
	Buddsoddiad Cyfalaf:	
(2,701)	• Eiddo, Offer a Chyfarpar	0
0	• Eiddo buddsoddi	0
(219)	• Asedau anniriaethol	0
0	• Gwariant referniw a ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud	0
	Ffynonellau o ariannu:	
63	• Derbyniadau cyfalaf	0
2,252	• Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill	0
	Symiau a neilltuwyd o referniw	
605	• Cyfraniadau referniw uniongyrchol	0
0	• Prifswm cronfa MRP / benthyciadau	0
7,309	Ad-dalu'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf *	0
<b>0</b>	<b>Gofyniad ariannu cyfalaf wrth gau:</b>	<b>0</b>

2015/16		2016/17
£'000		£'000
	<b>Esboniad o symudiadau yn ystod y flwyddyn:</b>	
0	(Cynnydd) / lleihad yn yr angen sylfaenol i fenthycia (a gefnogir gan gymorth ariannol gan y llywodraeth)	0
7,309	(Cynnydd) / lleihad yn yr angen sylfaenol i fenthycia (nas cefnogir gan gymorth ariannol gan y llywodraeth) *	0
0	Asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau cyllid	0
0	Asedau a gaffaelwyd o dan gontractau Menter Cyllid Preifat	0
<b>7,309</b>	<b>(Cynnydd)/ lleihad yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf</b>	<b>0</b>

\*Yn 2015/16, defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn i ad-dalu'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf.

## 40. Prydlesau

### Y Grŵp/Comisiynydd fel Prydlesai

#### Prydlesau Gweithredu

Mae'r Grŵp/Comisiynydd yn prydlesu eiddo o berchenogion eiddo eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy, er mwyn darparu swyddfeydd addas ar gyfer plismona gweithredol a chymorth. Mae gan y Grŵp/Comisiynydd brydlesau gweithredu hefyd ar gyfer offer a chyfarpar sy'n cynnwys llungopiwyd.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2017
£'000		£'000
168	Dim hwyrach na blwyddyn	175
416	Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	485
977	Yn hwyrach na phum mlynedd	884
<b>1,561</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>1,544</b>

Y gwariant a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn oedd:

2015/16		2016/17
£'000		£'000
235	Isafswm taliadau prydles	217
0	Rhenti dibynnol	0
0	(Taliadau isbrydles sy'n dderbyniadwy)	0
<b>235</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>217</b>

### Y Grŵp/Comisiynydd fel Prydleswr

#### Prydlesau Gweithredu

Mae'r Grŵp/Comisiynydd yn prydlesu rhan o'i bortffolio eiddo er mwyn darparu swyddfeydd addas a fforddiadwy i awdurdodau eraill yn y sector cyhoeddus.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

Y Grŵp	Y Comisiynydd		Y Grŵp	Y Comisiynydd
31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2017
£'000	£'000		£'000	£'000
95	95	Dim hwyrach na blwyddyn	86	86
337	337	Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	337	337
356	356	Yn hwyrach na phum mlynedd	271	271
<b>788</b>	<b>788</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>694</b>	<b>694</b>

Yr incwm a gredydwyd i Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp/Comisiynydd yn ystod 2016/17 mewn perthynas â'r prydlesau hyn oedd £179,861.

#### 41. Mentrau Cyllid Preifat a chontractau tebyg

Terfynwyd y cytundeb Menter Cyllid Preifat ar gyfer Gorsaf Heddlu Rhydaman ar 19 Mehefin 2015.

2015/16		2016/17
£'000		£'000
2,504	Balans sy'n weddill ar ddechrau'r flwyddyn	0
(10)	Taliadau yn ystod y flwyddyn	0
(2,494)	Taliadau yn ystod y flwyddyn (terfynu contract)	0
0	Gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn	0
<b>0</b>	<b>Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>0</b>

#### 42. Colledion lleihad mewn gwerth

Yn ystod 2016/17, nid oes unrhyw reswm dros gredu bod gwerth asedau wedi newid, felly nid oes arwydd o leihad mewn gwerth.

#### 43. Buddiannau terfynu

Yn ystod 2016/17, derbyniodd 2 aelod o staff gynig o fuddiannau yn gyfnewid am derfynu cyflogaeth.

#### 44. Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig

##### Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Grŵp yn gwneud cyfraniad tuag at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod cyflogeion yn ymddeol, mae gan y Grŵp ymrwymiad i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae cyflogeion yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – cynllun CARE (Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd) buddiannau diffiniedig a ariannwyd ydyw, sy'n golygu bod y Grŵp a chyflogeion yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi.
- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu – cynllun CARE buddiannau diffiniedig nas ariannwyd ydyw, ac o ganlyniad nid oes gan y gronfa unrhyw asedau buddsoddi. Caiff buddiannau sy'n daladwy eu hariannu gan gyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddiannau sy'n daladwy a chyfraniadau sy'n dderbyniadwy drwy grant ychwanegol gan y Swyddfa Gartref.

##### Trafodion sy'n ymwneud â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan delir y buddiannau ar ffurf pensiynau yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n rhaid i'r Grŵp ei godi yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ôl-gyflogaeth/buddiannau ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa

Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	Y Grŵp	Y Comisiynydd	Y Grŵp	Y Comisiynydd
	2016/17	2016/17	2016/17	2016/17
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</b>				
<i>Cost gwasanaethau:</i>				
• Cost gwasanaeth cyfredol	(4,236)	(97)	(16,484)	0
• Cost gwasanaeth a roddwyd	0	0	0	0
• Arall	(120)	0	0	0
<i>Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:</i>				
• Traul llog net	(992)	(23)	(34,944)	0
<b>Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau</b>	<b>(5,348)</b>	<b>(120)</b>	<b>(51,428)</b>	<b>0</b>
<i>Buddiant Ôl-gyflogaeth arall a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</i>				
<i>Ailfesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net sy'n cynnwys:</i>				
• Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net)	19,987	0	0	0
• Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	1,743	0	0	0
• Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(36,097)	(178)	(263,838)	0
• Arall – (ennill)/colled profiad	6,603	0	0	0
<b>Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a Godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(13,112)</b>	<b>(298)</b>	<b>(315,266)</b>	<b>0</b>
<b>Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)</b>	0	(12,814)	0	(315,266)
<b>Cyfanswm y gost net</b>	<b>(13,112)</b>	<b>(13,112)</b>	<b>(315,266)</b>	<b>(315,266)</b>
<i>Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:</i>				
• Gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Garged neu'r Diffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	5,348	5,348	51,428	51,428
<i>Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:</i>				
• Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	(2,749)	(2,749)	(24,764)	(24,764)

Proseswyd trosglwyddiad o fewn y grŵp o gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddal cronfeydd wrth gefn.

Y swm cronol o enillion a cholledion actiwaraidd a gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp a'r Comisiynydd hyd at 31 Mawrth 2017 yw colled o £7,764k (2015/16: ennill o £4,851k).

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	Y Grŵp	Y Comisiynydd	Y Grŵp	Y Comisiynydd
	2015/16	2015/16	2015/16	2015/16
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</b>				
<i>Cost gwasanaethau:</i>				
• Cost gwasanaeth cyfredol	(4,277)	(88)	(19,508)	0
• Cost gwasanaeth a roddwyd	0	0	(3,199)	0
• Arall	(94)	0	0	0
<i>Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:</i>				
• Traul llog net	(1,009)	(21)	(33,088)	0
<b>Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau</b>	<b>(5,380)</b>	<b>(109)</b>	<b>(55,795)</b>	<b>0</b>
<i>Buddiant Ôl-gyflogaeth arall a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</i>				
Ailfesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net sy'n cynnwys:				
• Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net)	(3,960)	0	0	0
• Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	0	0	0	0
• Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	8,811	100	61,790	0
• Arall – (ennill)/colled profiad	0	0	0	0
<b>Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a Godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(529)</b>	<b>(9)</b>	<b>5,995</b>	<b>0</b>
<b>Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)</b>	0	(520)	0	5,995
<b>Cyfanswm y gost net</b>	(529)	(529)	5,995	5,995
<i>Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:</i>				
• Gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Garged neu'r Diffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	5,380	5,380	55,795	55,795
<i>Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:</i>				
• Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	(2,596)	(2,596)	(27,402)	(27,402)

### Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a gydnabuwyd yn y Fantolen

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth y Grŵp mewn perthynas a'r cynlluniau buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	(123,284)	(159,043)	(982,911)	(1,273,413)
Gwerth teg asedau'r cynllun	94,376	119,772	0	0
<b>Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig</b>	<b>(28,908)</b>	<b>(39,271)</b>	<b>(982,911)</b>	<b>(1,273,413)</b>

### Rhwymedigaeth Pensiynau

Mae'r Rhwymedigaeth Pensiynau a ddatgelir ar Fantolen y Grŵp yn adlewyrchu ymrwymadau sylfaenol y Prif Gwnstabl yn yr hirdymor i dalu buddiannau ymddeol. Yn

## COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

2016/17 mae hyn yn cyfateb i £1,312,684 miliwn o'i gymharu â £1,011,819 miliwn yn 2015/16.

Mae cydnabod cyfanswm y rhwymedigaeth yn cael effaith sylweddol ar y gwerth net fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y Grŵp yn dal i fod yn iach. Y rheswm dros hyn yw bod y Prif Gwnstabl, er mwyn ariannu'r rhwymedigaeth, yn gwneud cyfraniad pensiwn o 21.3% ar gyfer swyddogion yr heddlu ac 11.6% ar gyfer staff yr heddlu, gyda'r pensiynau gwirioneddol a'r cyfandaliadau a gymudwyd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu, a ariennir gan y Swyddfa Gartref drwy law'r Comisiynydd.

### Cysoni'r symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun</b>	<b>93,830</b>	<b>94,376</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Llog incwm	3,214	3,435	0	0
Ailfesur ennill / colled)				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Enillion o asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net</li> </ul>	(3,960)	19,987	0	0
Cyfraniadau gan y cyflogwr	2,596	2,749	0	0
Cyfraniadau gan gyflogieion i'r cynllun	1,238	1,298	0	0
Buddiannau a dalwyd	(2,448)	(1,953)	0	0
Arall (os yw'n gymwys)	(94)	(120)	0	0
<b>Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau</b>	<b>94,376</b>	<b>119,772</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

Y Prif Gwnstabl sy'n mynd i'r rhan fwyaf o gostau cyflogaeth, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth yn aros yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl a'r Grŵp.

### Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig):

	Rhwymedigaethau a Ariannwyd: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaethau nas Ariannwyd: Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans Agoriadol ar 1 Ebrill:</b>	<b>(124,805)</b>	<b>(123,284)</b>	<b>(1,016,308)</b>	<b>(982,911)</b>
Cost gwasanaeth cyfredol	(4,277)	(4,236)	(19,508)	(16,484)
Cost llog	(4,223)	(4,427)	(33,088)	(34,944)
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	(1,238)	(1,298)	(5,862)	(5,771)
<i>Ailfesur enillion a (colledion)</i>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ailfesur enillion / (colledion) sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig</li> </ul>	0	1,743	0	0
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ailfesur enillion / (colledion) sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol</li> </ul>	8,811	(36,097)	61,790	(263,838)
<ul style="list-style-type: none"> <li>Arall (os yw'n gymwys)</li> </ul>	0	6,603	0	0
Cost gwasanaeth a roddwyd	0	0	(3,199)	0
Colledion / (enillion) o gwtogi	0	0	0	0
Buddiannau a Dalwyd	2,448	1,953	33,264	30,535
<b>Balansau wrth gau ar 31 Mawrth</b>	<b>(123,284)</b>	<b>(159,043)</b>	<b>(982,911)</b>	<b>(1,273,413)</b>

Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

	Gwerth teg asedau'r Cynllun	
	2015/16	2016/17
	£'000	£'000
<b>Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod</b>	397	959
<b>Offerynnau ecwiti</b>	65,214	84,438
<b>Bondiau</b>	18,252	23,236
<b>Eiddo</b>	10,513	11,139
<b>Cyfanswm yr Asedau</b>	<b>94,376</b>	<b>119,772</b>

Sail dros amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati.

Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu wedi cael eu hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, sef cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar y prisiaid llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2016.

Y rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17
<b>Rhagdybiaethau ynglŷn â marwolaethau:</b>				
Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol:				
• Dynion	23.4	22.8	27.6	27.8
• Menywod	25.9	25.5	30.2	30.3
Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol:				
• Dynion	25.7	25.0	30.3	30.1
• Menywod	28.2	27.8	32.5	32.6
<b>Rhagdybiaethau eraill:</b>				
Cyfradd chwyddiant	2.0%	2.3%	2.0%	2.3%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	3.5%	3.8%	3.5%	3.8%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.0%	2.3%	2.0%	2.3%
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	3.6%	2.6%	3.6%	2.6%

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod wedi'u pennu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac sy'n tybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth a ddadansoddiwyd yn newid ond bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddiwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gydgysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisiau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Ni newidiodd y dulliau a'r



mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2016/17	Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun	
	Cynnydd yn y rhagdybiaeth	Lleihad yn y rhagdybiaeth
	£'000	£'000
Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn)	3,015	
Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu leihad o 0.1%)	3,531	
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu leihad o 0.1%)	1,080	
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu leihad o 0.1%)		3,454
Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2016/17	Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun	
	Cynnydd yn y rhagdybiaeth	Lleihad yn y rhagdybiaeth
	£'000	£'000
Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn)	30,940	
Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu leihad o 0.1%)	26,726	
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu leihad o 0.1%)	6,801	
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu leihad o 0.1%)		26,127

### Effaith ar lifau arian parod y Grŵp

Amcan y cynllun yw sicrhau bod cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Grŵp wedi cytuno ar strategaeth ag actiwari'r cynllun er mwyn cyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y prisiad tair blynedd ar 31 Mawrth 2017 a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr yn y dyfodol isod:

Blwyddyn	Cyfradd y cyflogwr
2017/18	13.5%
2018/19	13.5%
2019/20	13.5%

### 45. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Roedd Prif Gwnstabl Dyfed-Powys, ynghyd â Phrif Gwnstabiliaid eraill a'r Swyddfa Gartref yn wynebu 14 o hawliadau i ddechrau a gyflwynwyd yn eu herbyn yn Nhribiwnlys Cyflogaeth Llundain Ganolog. Mae'r hawliau yn ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon honedig sy'n codi o'r Darpariaethau Trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015. Mae hawliadau gwahaniaethu anghyfreithlon hefyd wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r newidiadau i reoliadau Pensiwn y Farnwriaeth a Diffoddwyr Tân. Yn achos hawliadau'r Farnwriaeth, yr hawlwyd fu'n llwyddiannus ac yn achos y Diffoddwyr Tân yr atebwyr fu'n llwyddiannus. Mae'r ddau ddyfarniad hyn yn destun apêl, y gall ei chanlyniad benderfynu canlyniad hawliadau'r Heddlu. Nid yw'r Tribiwnlys wedi pennu dyddiad ar gyfer gwrandawriad rhagarweiniol na sylweddol i'r Heddlu eto. Awgryma'r cyngor cyfreithiol fod amddiffyniad cryf yn erbyn yr hawliadau yn erbyn yr Heddlu. Ceir ansicrwydd hefyd ynglŷn â'r cwantwm a phwy fydd yn ysgwyddo'r gost, os yw'r hawliadau'n llwyddo'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Am y rhesymau hyn, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud yn Natganiadau Cyfrifyddu 2016/17.

Mae gan Swyddogion yr Heddlu sydd wedi cronni 30 blynedd o wasanaeth yr hawl i ymddieithrio o'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i swyddogion sy'n aelodau o gynllun pensiwn 1987 y mae hyn yn gymwys. Mae'n bosibl y gall rhai swyddogion hawlio eu bod wedi gordalu cyfraniadau pensiwn ac fel y cyfryw, y gall fod ganddynt yr hawl i wneud hawliad. Nid oes unrhyw hawliadau wedi'u cyflwyno hyd yma a byddai'n anodd rhoi amcangyfrif dibynadwy ar gyfer costau o'r fath ar hyn o bryd. Rydym wedi amcangyfrif y byddai hyn yn effeithio ar uchafswm o saith swyddog Heddlu Dyfed-Powys.

#### **46. Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol**

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Diwygiedig CIPFA ar Reoli Trysorlys ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Cyllid Arian Darbodus Diwygiedig i Awdurdodau Lleol (diwedddarwyd y ddau ym mis Tachwedd 2009).

Fel rhan o'r broses o fabwysiadu'r Cod Rheoli Trysorlys, mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth yn nodi paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn paratoi Arferion Rheoli Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn er mwyn rheoli'r risgiau hyn.

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n cydymffurfio â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r Canllawiau hyn yn pwysleisio bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Comisiynydd, ynghyd â'i Arferion Rheoli Trysorlys yn seiliedig ar geisio'r gyfradd uchaf o enillion sy'n gyson â'r lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd.

Y prif risgiau a gwmpesir yw:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd cydbarti ased ariannol yn methu â bodloni ei rwymedigaethau cytundebol, gan achosi colled i'r Comisiynydd.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fyddai'r arian parod ar gael i'r Comisiynydd wneud taliadau cytundebol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd y bydd colled ariannol nas cynlluniwyd yn codi oherwydd newidiadau yn newidynnau'r farchnad, megis cyfraddau llog neu brisiau ecwiti.

#### Risg Credyd

##### ***Buddsoddiadau***

Mae'r Comisiynydd yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu y mae eu statws credyd yn ddigon uchel fel y'i nodwyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol sydd ag isafswm statws credyd hirdymor uchel o A-, Llywodraeth y DU, Awdurdodau Lleol eraill, a sefydliadau heb statws credyd y mae'r Comisiynydd wedi cael cyngor buddsoddi annibynol yn eu cylch.

Rhoddir terfyn o £2m ar y swm o arian y gellir ei fuddsoddi mewn un cydbarti (ac eithrio llywodraeth y DU).

Ni all amlygiad mwyaf y Comisiynydd i risg credyd mewn perthynas â'i fuddsoddiadau o £40m mewn banciau a chymdeithasau adeiladu gael eu hasesu'n gyffredinol gan y bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â gwneud taliadau llog neu ad-dalu'r prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos mai

anaml y bydd endidau o'r fath yn methu â bodloni eu hymrwymiaidau. Mae risg na fydd modd adennill symiau yn gymwys i bob un o adneuron y Comisiynydd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2017 bod hyn yn debygol o grisialu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth nominal portffolio buddsoddi'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2017, ac yn cadarnhau i bob buddsoddiad gael ei wneud yn unol â meini prawf statws credyd cymeradwy'r Comisiynydd:

Cydbarti	A fodlonwyd y meini prawf ynglyn â statws credyd pan wnaed y buddsoddiad?	A fodlonwyd y meini prawf ynglyn â statws credyd ar 31 Mawrth 2017?	Balans a fuddsoddiwyd ar 31 Mawrth 2017 £'000oedd					Dros 12 mis	Cyfanswm
			Hyd at fis	> 1 mis a < 3 mis	> 3 mis a < 6 mis	> 6 mis a < 12 mis	£'000		
	D/N	D/N	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Banciau'r DU	D	D	2,000	2,000	2,500	2,000	0	8,500	
Banciau Tramor	D	D	0	0	0	2,000	0	2,000	
Cymdeithasau Adeiladu'r DU	Dd/G	Dd/G	1,000	1,000	2,000	0	0	4,000	
Bondiau	D	D	0	0	2,014	0	6,256	8,270	
Swyddfa Rheoli Dyledion	D	D	2,000	0	0	0	0	2,000	
Awdurdodau Lleol	Dd/G	Dd/G	2,000	4,000	0	0	0	6,000	
<b>Cyfanswm</b>			<b>7,000</b>	<b>7,000</b>	<b>6,514</b>	<b>4,000</b>	<b>6,256</b>	<b>30,770</b>	

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod yr holl adneuron a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2017 yn bodloni meini prawf statws credyd y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2017. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys y gwerth cario amcangyfrifedig ar ôl lleihad o £8k yng ngwerth buddsoddiad y Comisiynydd gyda Banc Gwlad yr Iâ.

### **Symiau Masnach Derbyniadwy**

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi amlygiad posibl mwyaf y Comisiynydd i risg credyd, yn seiliedig ar y profiad a gafwyd dros y pum blwyddyn ariannol ddiwethaf ar lefel diffyg talu ymhlith dyledwyr masnach.

Dim ond y symiau derbyniadwy hynny sy'n bodloni'r diffiniad o ased ariannol sydd wedi'u cynnwys, h.y. dyledwyr sydd wedi codi o ganlyniad i weithgareddau masnachu.

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
<b>Dyledwyr Gros (£'000)</b>	1,743	1,837
<b>Darpariaeth Drwg-ddyledion fel % o Dyledwyr Masnach y Grŵp</b>	6.25	3.42
<b>Amlygiad i risg credyd</b>	109	63

### Risg Hylifedd

Mae'r Comisiynydd yn gallu benthycu ar gyfraddau ffafriol gan y Bwrdd Benthycu Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ganfyddedig na fydd y Comisiynydd yn gallu codi arian i fodloni ei ymrwymadau. Fodd bynnag, mae'n cael ei amlygu i'r risg y bydd angen ailariannu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau pan fo cyfraddau llog anffafriol o uchel.

Mae'r dadansoddiad aeddfedu o'r rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

31 Mawrth 2016 £'000	Benthyciadau yn aeddfedu o fewn:	31 Mawrth 2017 £'000
157	O dan flwyddyn	173
<b>157</b>	<b>Cyfanswm y Benthyciadau Cyfredol</b>	<b>173</b>
173	1 – 2 flynedd	189
623	2 – 5 mlynedd	682
1,502	5 – 10 mlynedd	1,254
0	10 – 15 mlynedd	0
0	15 mlynedd a mwy	0
<b>2,298</b>	<b>Cyfanswm y Benthyciadau Hirdymor dros 12 mis</b>	<b>2,125</b>

Mae'r holl symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ddyledus i'w talu mewn llai na blwyddyn.

### Risg y Farchnad

#### ***Risg Cyfraddau Llog***

Mae'r Comisiynydd yn cael ei amlygu i risg o ran ei amlygiad i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg benthyciadau rhwymedigaethau yn gostwng
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng.

#### ***Risg Pris***

Nid yw'r Comisiynydd yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfunol na chyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw'n cael ei amlygu i risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Comisiynydd yn wynebu colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhris offerynnau ariannol).

**Risg Cyfnewid Tramor**

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw ased ariannol na rhwymedigaethau sydd mewn arian cyfred tramor. Felly, nid yw wedi'i amlygu i golled sy'n codi o ganlyniad i symudiadau anffafriol mewn cyfraddau cyfnewid.

**47. Cronfeydd Ymddiriedolaeth**

Nod Ymddiriedolaeth Atal Troseddau Dyfed-Powys yw hyrwyddo diogelwch pobl ac eiddo rhag gweithredoedd troseddol ac atal troseddau, er budd y cyhoedd ac mewn partneriaeth â'r heddlu, yn benodol drwy'r canlynol:

- Annog y cyhoedd i chwarae mwy o ran yn y gwaith o atal a datrys troseddau;
- Cynorthwyo o ran mesurau sydd wedi'u cynllunio i leihau lefel troseddau;
- Darparu addysg, gwybodaeth a chymorth ymarferol ar atal troseddau.

Am nifer o flynyddoedd, roedd yr Ymddiriedolaeth yn rhedeg 'Cynllun Bobi'r Fan' a ddarparodd fesurau diogelwch ychwanegol yng nghartrefi pobl sy'n agored i niwed ar ffurf cloeon ffenestri, cadwyni drws a syllwyr drws. Fodd bynnag, gan gydnabod y cyfraniad ariannol sylweddol gan Heddlu Dyfed-Powys, a hynny ar adeg o adnoddau ariannol prinnach, cynhaliwyd adolygiad o 'Gynllun Bobi'r Fan' er mwyn nodi opsiynau darparu gwasanaethau yn y dyfodol ac yn 2014, penderfynwyd rhoi terfyn ar y cynllun.

Mae dyfodol yr Ymddiriedolaeth Atal Troseddau yn cael ei drafod ar hyn o bryd a'r tebyg yw y caiff yr Ymddiriedolaeth ei diddymu ac y caiff corff elusennol amgen ei gyflwyno yn ei lle. Ni fu unrhyw symudiad ar y sefyllfa ariannol yn ystod 2016/17 ac roedd balans o £66,681 yn y Cyfrif Banc ar 31 Mawrth 2017.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i chofrestru â'r Comisiwn Elusennau ac mae crynodeb ariannol wedi'i gynnwys isod:

Diwedd y flwyddyn ariannol	Incwm	Gwariant	Sefyllfa net
	£	£	£
31 Mawrth 2016	0	0	0
31 Mawrth 2015	(73,863)	82,491	8,628

Penderfynwyd nad yw'r Comisiynydd yn rheoli'r Ymddiriedolaeth ac nad yw'n un o is-gwmnïau'r sefydliad.

## Rhestr Termau

Term	Diffiniad
2015/16	Cyfeiria at y cyfnod y mae a wnelo'r cyfrifon hyn ag ef at ddibenion cymharu – 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016.
2016/17	Cyfeiria at y cyfnod y mae a wnelo'r cyfrifon hyn ag ef – 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017.
Ailbrisiio asedau	Ailbrisiio asedau sefydlog yw techneg sydd ei hangen i gofnodi gwerth gwirioneddol asedau cyfalaf a ddelir yn y fantolen yn gywir. Diben ailbrisiad yw cynnwys gwerth teg asedau anghyfredol ar y farchnad yn y cyfrifon.
Amorteiddio	Dylai asedau anniriaethol gael eu hamorteiddio ar sail systematig dros eu hoes economaidd.
Ardreth Annomestig Genedlaethol	Yr ardrethi annomestig, neu'r ardrethi busnes, a gesglir gan gynghorau lleol yw'r ffordd y mae busnesau ac eraill sy'n meddiannu eiddo annomestig yn cyfrannu tuag at gost gwasanaethau lleol. Caiff yr ardrethi eu cyfuno gan lywodraeth ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau lleol a'r Comisiynydd yn unol â fformiwla.
Ased Ariannol	Hawl i fuddiannau economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Comisiynydd sydd ar ffurf arian parod neu offerynnau eraill neu hawl gytundebol i gael arian parod neu ased ariannol arall.
Asedau anghyfredol	Eitemau megis tir, adeiladau, cerbydau a phrif eitemau o gyfarpar, sy'n rhoi budd dros fwy na blwyddyn.
Asedau cyfredol	Mae asedau cyfredol yn eitemau y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd. Drwy gonfensiwn caiff yr eitemau eu trefnu drwy gyfeirio at ba mor hawdd y gallant gael eu troi'n arian parod.
Benthyca darbodus	Benthyca gan awdurdodau lleol heb gymorth ariannol y llywodraeth, ond yn unol â chod benthyca awdurdodau lleol darbodus CIPFA.
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	Sefydliad a ariennir gan y Llywodraeth. Mae'n rhoi benthyg arian i Gomisiynwyr ar amodau penodol fel y gallant brynu eitemau cyfalaf.
CIPFA	Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, un o'r cyrff cyfrifyddiaeth proffesiynol yn y DU. Mae CIPFA yn arbenigo yn y gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n gyfrifol am bennu safonau cyfrifyddu ar gyfer y gwasanaethau hyn.
Comisiynu	Y cylch cyfan o asesu anghenion y bobl mewn ardal leol, dylunio gwasanaethau ac yna'u sicrhau.
Corfforaeth undyn	Corfforaeth undyn yw endid cyfreithiol sy'n cynnwys un swydd gorfforedig ("undyn") a ddelir gan un dyn neu fenyw h.y. mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gorfforaethau undyn o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.
Cost gwasanaeth a roddwyd	Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun sy'n ymwneud â gwasanaeth cyflogai mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod cyfredol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymdeol.
Cost gwasanaeth cyfredol (Pensiynau)	Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaeth cynllun buddiannau diffiniedig a ddisgwyllir o wasanaeth cyflogaion yn y cyfnod cyfredol.
Cost Llog Net (Pensiynau)	Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, mae hyn yn digwydd yn ystod y cyfnod pan fydd y rhwymedigaeth (ased) buddiannau diffiniedig net yn codi o dreigl amser.
Cronfeydd Wrth Gefn	Balansau sy'n cynrychioli adnoddau a neilltuir at ddibenion megis hapddigwyddiadau cyffredinol a rheoli llifau arian parod. Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yw'r rhai a neilltuir at ddibenion polisi penodol.

Term	Diffiniad
Cwtogiad	Newidiadau mewn rhwymedigaethau sy'n ymwneud â champau gweithredu sy'n rhyddhau'r cyflogwr o'r prif gyfrifoldeb am rhwymedigaeth pensiwn (e.e. mae grŵp o gyflogeion yn cael eu trosglwyddo i gynllun arall) neu ddigwyddiadau sy'n lleihau blynyddoedd disgwylidig gwasanaeth cyflogeion yn y dyfodol neu leihau faint o fuddiannau diffiniedig a gronnir dros eu gwasanaeth yn y dyfodol i rai cyflogeion (e.e. cau uned fusnes).
Cyfrifon un endid	Cyfrifon unigol pob corfforaeth undyn.
Cyfrifon y grŵp	Datganiadau ariannol y grŵp h.y. y ddwy gorfforaeth undyn, a gyflwynir fel un endid economaidd.
Cyfrifyddu cydrannau	Cyfrifyddu am gydrannau unigol asedau anghyfredol ar wahân.
Cyfrifyddu uno	Dylid cymhwyso cyfrifyddu uno pan fydd swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo'n llawn o gyfrifoldeb un awdurdod i'r llall. Lle mae cyfrifyddu uno yn gymwys rhagdybir i'r uno ddigwydd ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu.
Cyllideb Refeniw	Yr amcangyfrif o ofynion incwm a gwariant blynyddol, sy'n nodi goblygiadau ariannol polisïau a'r sail dros y praesept blynyddol i'w godi wrth gasglu arian.
Cynllun buddiannau diffiniedig	Cynllun pensiwn neu gynllun buddiannau ymddeol arall heblaw cynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel arfer, mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddiannau yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nid yw'r buddiannau yn ymwneud yn uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynlluniau fod yn rhai a ariannwyd neu nas ariannwyd.
Darpariaethau	Darpariaeth yw rhwymedigaeth o amseriad neu swm ansicr. Cydnabyddir darpariaeth os yw'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni: <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae gan endid rhwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;</li> <li>• mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo adnoddau sy'n ymgorffori buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;</li> <li>• gellir llunio amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.</li> </ul>
Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol	Deddf Senedd y Deyrnas Unedig a drosglwyddodd y rheolaeth dros heddluoedd o awdurdodau'r heddlu i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd etholedig.
Derbyniadau cyfalaf	Incwm o werthu asedau anghyfredol, y gellir ond eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu ad-dalu dyled sy'n weddill ar asedau a ariennir o fenthyciadau. Derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio yw'r derbyniadau cyfalaf hynny nas neilltuwyd at ddibenion penodol ond sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer pryniannau cyfalaf.
Dibrisiant	Mesur cost neu swm wedi'i ailbriso buddiannau'r ased anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod. Mae defnydd yn cynnwys treulio ased anghyfredol, ei ddefnyddio neu leihad yn ei oes ddefnyddiol p'un a yw hynny'n codi o ddefnydd, am fod amser wedi mynd heibio neu anarferiant drwy newidiadau mewn technoleg neu'r galw am y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchwyd gan yr ased.
Dirprwyaeth	Partneriaeth awdurdod a chyfrifoldeb i berson arall gyflawni gweithgareddau penodol. Mae'r person a ddirprwyodd y gwaith yn parhau'n gyfrifol am ganlyniad y gwaith a ddirprwywyd.
Enillion a cholledion actiwaraid	Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn diffygion neu wargedion actiwaraid sy'n codi oherwydd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw digwyddiadau wedi cyd-daro â'r rhagdybiaethau actiwaraid a wnaed yn y prisiad diwethaf; neu</li> <li>• Mae'r rhagdybiaethau actiwaraid wedi newid.</li> </ul>
FRS	Safonau Adrodd Ariannol, fel y cytunir arnynt gan broffesiwn cyfrifyddu'r DU a'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiadau o Arfer Cyfrifyddu Safonol.

Term	Diffiniad
Grant Cynnal Refeniw	Grant cyffredinol gan y llywodraeth i gefnogi gwariant awdurdodau lleol (gan gynnwys Comisiynwyr) sy'n cael ei bennu bob blwyddyn mewn perthynas â lefelau gwariant.
Gwariant cyfalaf	Gwariant ar gaffael neu adeiladu asedau, sydd â gwerth hirdymor e.e. tir ac adeiladau.
Gwerth cario	Gwerth cario ased yw gwerth yr ased sydd wedi'i gynnwys yn y Fantolen.
Gwerth llyfr net	Y swm y mae asedau anghyfredol wedi'u cynnwys yn y fantolen h.y. eu cost hanesyddol neu eu gwerth cyfredol llai'r symiau cronrus a ddarperir ar gyfer dibrisiant.
Gwerth teg	Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodyn hyd braich, llai, lle y bo'n gymwys, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu'r ased.
Lleihad mewn gwerth	Lleihad yng ngwerth ased anghyfredol, islaw ei swm cario yn y fantolen.
Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD)	Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu nwyddau a gwasanaethau – nid yw'n cynnwys taliadau llog morgais, y dreth gyngor na chostau tai eraill.
Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM)	Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu basgedaid o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys taliadau morgais, y dreth gyngor a chostau cartref eraill.
Offeryn ariannol	Unrhyw gontract sy'n rhoi ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Offeryn ariannol deilliannol yw contract ariannol y mae ei werth yn deillio o newidiadau mewn asedau neu fynegeion sylfaenol.
Polisiau cyfrifyddu	Set o reolau a chodau ymarfer yw'r rhain, a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon.
Prydles cyllid	Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a buddiannau perchenogaeth o ased anghyfredol i'r prydlesai. Gellir rhagdybio bod risgiau a buddiannau yn cael eu trosglwyddo yn y fath fodd os yw gwerth presennol yr isafswm taliadau prydles, gan gynnwys unrhyw daliad cychwynnol, ar ddechau'r brydles, dipyn yn fwy na gwerth teg yr ased a brydleswyd.
Rhwymedigaeth Ariannol	Rhwymedigaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd a reolir gan y Comisiynydd a all fod ar ffurf rhwymedigaeth gytundebol i roi arian parod neu asedau ariannol, neu rhwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaethau ariannol ag endid arall sy'n anffafriol o bosibl i'r Comisiynydd.
Rhwymedigaethau cyfredol	Rhwymedigaethau cyfredol yw eitemau sy'n ddyledus ar unwaith neu yn y byrdymor.
Rhwymedigaethau digwyddiadol	Mae'r rhain yn bodoli lle: <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae rhwymedigaeth bosibl yn codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac mai dim ond os bydd un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad yw/ydynt o dan reolaeth lwyr y sefydliad yn digwydd y caiff ei bodolaeth ei chadarnhau; neu</li> <li>• mae rhwymedigaeth gyfredol yn codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ond nid yw'n cael ei chydabod oherwydd: <ol style="list-style-type: none"> <li>i. nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth i drosglwyddo, neu</li> <li>ii. ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.</li> </ol> </li> </ul>
Uwch Gyflogai	Cyflogai y mae ei gyflog/chyflog yn fwy na £150,000 y flwyddyn, neu un y mae ei gyflog/chyflog yn £60,000 y flwyddyn o leiaf (wedi'i gyfrifo ar sail pro rata i gyflogai rhan amser) ac sy'n bennaeth dynodedig gwasanaeth taledig ac yn brif swyddog statudol. Fel arfer, Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion statudol y Comisiynydd.